

Arweiniad Creu Lleoedd ar gyfer Datblygiadau Mewnlenwi a Chefnwlad

Canllawiau Cynllunio Atodl - Hydref 2021

Placemaking Guidance for Infill and Backland Development

Supplementary Planning Guidance - October 2021



Cyngor **Abertawe**
Swansea Council

Cynnwys

1.0 Cyflwyniad

2.0 Paratoi eich Cynnig Datblygu

3.0 Gofynion Creu Lleoedd Trosgynnol

4.0 Canllawiau ar gyfer Datblygu Mewnlenwi

5.0 Canllawiau ar gyfer Datblygu Tir Cefn

Atodiadau

Sut i ddefnyddio'r canllaw hwn:

Mae'r Canllaw Cynllunio Atodol (SPG) hwn yn darparu canllawiau dylunio wedi'i ffocysu ar yr hyn a elwir yn ddatblygiad 'mewnlenwi' a 'thir cefn'.

Mae'r canllaw wedi'i wneud yn syml i'w ddefnyddio trwy gynnwys diagramau enghreifftiol dangosol gyda thiciau a chroesau. Bwriedir i'r rhain fod yn ganllaw yn unig ac nid ydynt yn nodi bod unrhyw ddull penodol yn cael ei dderbyn neu ei wrthod yn gyffredinol. Ar bob adeg, dylai'r pwyslais fod ar amgylchiadau unigol pob safle. Noder bod yr holl ddimensiynau a ddatgenir neu a nodir yn y canllaw dylunio hwn yn cael eu mesur yn allanol.



1.0 Cyflwyniad

Nodau a Diben

- 1.1 Nod pennaf y ddogfen hon yw disgrifio canllawiau clir a chyson ar faterion sy'n gysylltiedig â Chreu Lleoedd, Treftadaeth a Dylunio ar gyfer pob math o ddatblygiad preswyl mewnlenwi a/neu dir cefn. Trwy lynu wrth y Canllaw, bydd ymgeiswyr yn gallu datblygu lleiniau mewnlenwi a/neu dir cefn addas ar gyfer cartrefi newydd mewn modd sy'n parchu cymeriad y gymdogaeth leol, yn mwyhau ymdeimlad o le ac yn diogelu hawliau a llesiant cymdogion.
- 1.2 Mae'r ddogfen (y cyfeirir ato o hyn ymlaen fel 'Y Canllaw') yn darparu Canllaw Cynllunio Atodol (CCA) i gefnogi polisiâu cynllunio yng Nghynllun Datblygu Lleol Abertawe (CDLI) a fabwysiadwyd. Bydd y Canllaw yn ddeunydd pwysig wrth benderfynu ar gynigion cynllunio a gyflwynir i'r Awdurdod Cynllunio Lleol, gan gynnwys yn y camau cyn-ymgeisio a chais cynllunio.
- 1.3 Dylid defnyddio'r Canllaw i gyfeirio'r broses o lunio unrhyw gynnig cynllunio o fewn aneddiadau diffiniedig ar gyfer datblygiadau mewnlenwi a/neu dir cefn preswyl. Fel arfer mae datblygiadau o'r natur hon ar safleoedd bach lle mae'r nifer o anheddau arfaethedig yn gyffredinol yn llai na 10. Mae'r Canllaw yn berthnasol ar gyfer cynigion ar amrywiaeth eang o 'fathau' o safleoedd, gan amrywio o'r rhain yn ardaloedd dwysaf a mwyaf trefol y ddinas, i safleoedd o fewn yr amrywiaeth eang o faestrefi, trefi, pentrefi allweddol ac ardaloedd gwledig â phoblogaeth wasgarog sydd hefyd yn nodweddiadol o'r Sir. Er mwyn osgoi unrhyw amheuaeth, nid yw'r Canllaw yn ymwneud â chynigion y tu allan i ffiniau aneddiadau yn y cefn gwlad.
- 1.4 Mae'r Canllaw yn amlinellu'r materion creu lleoedd y mae angen eu hystyried 'fesul achos'. Nid yw'r canllawiau'n set o reolau ond yn hytrach yn set o egwyddorion y gellir ymdrin â nhw mewn llawer o ffyrdd gwahanol. Y diben trosgynnol yw hwyluso dyheadau creu lleoedd y Cyngor a chyflwyno'r amcan allweddol o godi safonau dylunio'n sylweddol ar draws y Sir.
- 1.5 Mae'r Canllaw yn darparu fframwaith i sicrhau bod y penderfyniadau sy'n cael eu gwneud ar gynigion datblygu ar gyfer eiddo mewnlenwi a/neu dir cefn domestig newydd wedi'u harwain gan egwyddorion creu lleoedd a dylunio perthnasol, ac yn sicrhau bod y cynigion yn gweddu i ofynion polisi cenedlaethol a lleol o ran creu lleoedd, treftadaeth a dylunio, ac mae'n cadarnhau'r wybodaeth nodweddiadol y mae ei hangen wrth gyflwyno cais cynllunio. Gan hynny, bydd dilyn y Canllaw yn helpu osgoi oedi diangen wrth geisio caniatâd cynllunio, ac yn darparu mwy o wrthrychedd, sicrwydd a chysondeb wrth wneud penderfyniadau.

Diffiniadau

1.6 Datblygu safleoedd mewnlenwi (bwlch): yn cynnwys datblygu preswyl (fflatiau neu dai) a leolir mewn safle bwlch o fewn ffryntiad stryd neu lôn sydd eisoes yn bodoli. Fel arfer mae datblygu mewnlenwi (bwlch) yn digwydd mewn amgylcheddau adeiledig, fodd bynnag mewn cyd-destunau mwy gwledig dylai lleoliad y dirwedd gyfeirio'r potensial am ddatblygu a thriniaethau ffiniau.



1.7 Datblygu Tir Cefn: yn cynnwys datblygu graddfa fach (fel arfer fel un o ddwy lain breswyl) yng nghefn anheddau sydd eisoes yn bodoli. Er hynny, bydd achosion pan all datblygu tir cefn gynnwys cynigion datblygu dwysedd uwch o 10+ o anheddau a dylid darllen y CCA hwn ar y cyd â'r CCA (Canllawiau Creu Lleod ar gyfer Datblygiadau Preswyl).



NODER: Gallai fod achosion (megis lleiniau cornel) pan fydd yn briodol i gymhwyso'r canllaw perthnasol ar gyfer Datblygu Mewnlenwi a Thir Cefn. Ym mhob achos, mae'n bosib y bydd y safleoedd heb eu datblygu neu'n cynnwys adeiladau y cynigir eu dymchwel.

Creu Lleod a Dylunio Da

1.8 Mae egwyddorion Creu Lleod wrth wraidd agenda cynllunio strategol y Cyngor, ac maent yn nodwedd hanfodol o'i ymagwedd at reoli datblygu. **Ar ei ffurf symlach, mae creu lleod yn ymagwedd 'sy'n canolbwyntio ar bobl' at gynllunio, dylunio a rheoli pobl a lleod. Mae'n ceisio creu adeiladau ac ardaloedd y byddai pobl yn dymuno byw, gweithio a threulio amser hamdden ynddynt.** Mae amrywiaeth eang o leod sefydledig yn Abertawe sydd wedi cyflawni'r nod hwn yn union. Mae'r rhain yn amrywio o ran cymeriad o ardaloedd trefol bywiog, dwys Uplands a'r Mwmbwls, i'r llu o bentrefi hardd Gŵyr. Nid yw'r dull o greu lleod yn un sy'n ceisio ailddyfeisio'r olwyn, ond yn hytrach ei nod yw ein harwain i ddeall beth sy'n gwneud i leod presennol 'weithio orau' i'r bobl sy'n byw ac yn treulio amser yno, ac i ddefnyddio'r rhinweddau hyn fel cynseiliau ar gyfer Byw yn yr 21^{ain} Ganrif.



Mae llawer o leod sy'n bodoli eisoes fel Uplands a gall y rhain ffurfio glasbrint ar gyfer lleod newydd

1.9 Mae pwysigrwydd Creu Lleod wedi cael ei gofleidio fel conglaen yr agenda gynllunio genedlaethol yng Nghymru a'r amcanion datblygu cynaliadwy sy'n ei hategu. Gall yr holl ddatblygiadau newydd gyfrannu ar ryw ffurf at greu lleod a dylanwadu ar sut y caiff y lle hwnnw ei brofi a'i fwynhau (h.y. ei 'ymdeimlad o le'), a fydd yn sefyll fel etifeddiaeth i genedlaethau o ddeiliaid ac ymwelwyr yn y dyfodol. Mae'r Canllaw hwn a'r polisïau CDLI perthnasol y mae'n eu hadleisio, yn pennu y dylid cymhwyso dull Creu Lleod a Rheoli Lleod ym mhob ardal ac ar amrywiaeth o raddfeydd, er mwyn creu etifeddiaeth gynaliadwy go iawn yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (Deddf LICDC). Yr hyn sy'n hollbwysig yw bod creu lleod llwyddiannus, neu gyflawni newidiadau cadarnhaol mewn lleod sydd eisoes yn bodoli, yn gofyn am ddull cyfannol sy'n dod â nifer o ddisgyblaethau gwahanol at ei gilydd.

Y Cyd-destun Cenedlaethol a Lleol



1.10 Ar y lefel genedlaethol, mae Polisi Cynllunio Cymru yn disgrifio'r egwyddorion cenedlaethol trosgynnol mewn perthynas â chynllunio a chreu lleoedd. Mae'r egwyddorion hyn yn sail i ffurfio polisiâu cynllunio lleol ac yn cyfeirio penderfyniadau unigol ar gynigion datblygu. Mae PCC yn nodi bod yn rhaid i benderfyniadau cynllunio

geisio hybu datblygu cynaliadwy a chefnogi llesiant pobl a chymunedau ledled Cymru. Mae'n mynnu bod hyn yn cael ei wneud trwy ymdrin â saith nod llesiant, y mai un ohonynt yw Meithrin Cymunedau Cydlynus, gan bwysleisio pwysigrwydd cyfuniadau priodol o ddefnyddiau tir. Mae PCC yn egluro bod creu lleoedd ac egwyddorion datblygu cynaliadwy yn hanfodol i ddatblygu ar bob graddfa.

Ffordd holistig o fynd ati i gynllunio a dylunio datblygiadau a lleoedd yw "creu lle", sy'n canolbwyntio ar ganlyniadau positif.

(Polisi Cynllunio Cymru, t16)

Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040



1.11 Mae Cymru'r Dyfodol, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ar 24 Chwefror 2021, yn pennu haen genedlaethol Cynllun Datblygu Cymru. Mae'r canlynol yn rhoi crynodeb o rai polisiâu allweddol sydd wedi'u cynnwys o fewn Cymru'r Dyfodol.

Polisi 1: Ble bydd Cymru'n Tyfu

1.12 Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi twf cynaliadwy ledled Cymru. Mewn tair Ardal Dwf Genedlaethol gwelir twf mewn cyfleoedd cyflogaeth a thai a buddsoddiad mewn isadeiledd. Yr Ardaloedd Twf Cenedlaethol yw: Bae Abertawe a Llanelli

Polisi 2: Llywio Twf ac Adfywio Trefol – Creu Lleoedd Strategol

1.13 Dylai twf ac adfywio trefi a dinasoedd wneud cyfraniad cadarnhaol at greu lleoedd cynaliadwy sy'n cefnogi bywydau egniol ac iach, gyda chymdogaethau trefol cywasgedig a cherddedadwy, sydd wedi'u trefnu o amgylch canolfannau defnydd cymysg a thrafnidiaeth gyhoeddus ac wedi'u hintegreiddio ag isadeiledd gwyrdd. Dylai twf ac adfywio trefol fod yn seiliedig ar yr egwyddorion Creu Lleoedd Strategol canlynol:

- creu cymysgedd cyfoethog o ddefnyddiau;
- darparu amrywiaeth o fathau o dai a deiliadaethau;

- adeiladu lleoedd cerddedadwy, gyda chartrefi, cyfleusterau lleol a chluddiant cyhoeddus o fewn pellter cerdded i'w gilydd;
- cynyddu dwysedd y boblogaeth, gyda gwaith datblygu ar ddwyseddau trefol a all gefnogi cludiant cyhoeddus a chyfleusterau lleol;
- sefydlu rhwydwaith hydraid o strydoedd, gyda hierarchaeth sy'n llywio natur gwaith datblygu;
- hyrwyddo gwaith datblygu sy'n seiliedig ar leiniau, sy'n cynnig cyfleoedd i ddatblygu lleiniau bach, gan gynnwys rhai ar gyfer tai ar archeb a hunanadeiladwyr; ac
- integreiddio isadeiledd gwyrdd, a gaiff ei lywio gan Aseiad Isadeiledd Gwyrdd yr awdurdod cynllunio.

Llywio twf ac adfywio trefol

1.14 Mae dyheadau Cymru'r Dyfodol o ran twf yn gyfle i adfywio ein trefi a'n dinasoedd a llywio eu maint, eu strwythur a'u dwysedd. Mae creu lleoedd wrth wraidd y system gynllunio yng Nghymru ac mae'r polisi hwn yn sefydlu dull strategol o greu lleoedd ac egwyddorion er mwyn helpu awdurdodau cynllunio i lywio twf ac adfywio trefol.


Polisi 9: Rhwydweithiau Ecolegol Cadarn ac IG

1.15 Er mwyn gwella bioamrywiaeth, sicrhau bodecosystemau yn gadarn a darparu isadeiledd gwyrdd, bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio gyda phartneriaid allweddol i wneud y canlynol:

- nodi ardaloedd y dylid eu diogelu a'u creu fel rhwydweithiau ecolegol;
- nodi cyfleoedd lle y gellid manteisio i'r eithaf ar isadeiledd gwyrdd presennol a phosib fel rhan o greu lleoedd, lle mae angen defnyddio atebion yn seiliedig ar natur fel dull allweddol o sicrhau twf cynaliadwy, cysylltedd ecolegol, cydraddoldeb cymdeithasol a lles.

- 1.16 Ym mhob achos, dylai camau gweithredu tuag at gynnal a gwella bioamrywiaeth (er mwyn sicrhau mantais net) a gwneud ecosystemau ac asedau isadeiledd gwyrdd yn gadarn gael eu dangos fel rhan o gynigion datblygu drwy ddulliau arloesol yn seiliedig ar natur o gynllunio safleoedd a dylunio'r amgylchedd adeiledig.
- 1.17 Mae ffocws strategol Cymru'r Dyfodol ar dwf trefol yn galw am fwy o bwyslais ar wella bioamrywiaeth (mantais net) er mwyn sicrhau bod twf yn gynaliadwy.
- 1.18 Mae darparu mannau a choridorau gwyrdd o ansawdd uchel, sy'n hygyrch yn lleol, yn helpu i gynnal a gwella swyddogaeth strategol ein hadnoddau naturiol a'n rhwydweithiau ecolegol, ac mae'n mynd i'r afael â lles corfforol a meddyliol. Gall asedau isadeiledd gwyrdd lleol megis hawliau tramwy cyhoeddus, tir comin, parciau, meysydd pentref a rhandiroedd oll wneud cyfraniad cronus at gysylltedd ecolegol cenedlaethol ehangach. Dangoswyd pwysigrwydd gwirioneddol mannau gwyrdd trefol pan fu'n rhaid i bobl gadw'n heini mewn mannau gwyrdd lleol cyfagos yn ystod cyfyngiadau symud COVID-19.

Adeiladu Lleod Gwell: Creu Lleod ac Ymadfer yn sgil Covid-19, Gorffennaf 2020.



1.19 Mae'r ddogfen hon gan Lywodraeth Cymru yn ategu Polisi Cynllunio Cymru ac yn cynyddu'r pwyslais ar greu lleod a seilwaith gwyrdd. Mae'r dyfyniadau canlynol o'r ddogfen yn tynnu sylw at sut mae angen i benderfyniadau cynllunio briodoli pwysigrwydd sylweddol i'r materion hyn, ac yn nodi effeithiau andwyol posib peidio â sicrhau y glynir wrth egwyddorion creu lleod:

“Rydym i gyd wedi treulio mwy o amser yn ein cymdogaethau yn ystod wythnosau'r cyfnod clo a gallwn i gyd werthfawrogi'r gwahaniaeth rhwng cael amgylchedd o safon i fyw, gweithio ac ymlacio ynddo a sut y gall cael ein torri i ffwrdd o'n ffrindiau a'n teulu olygu y gall amgylchedd gwael, heb fynediad neu â mynediad cyfyngedig i nwyddau, gwasanaethau a manau gwyrdd lleol gael effaith niweidiol iawn ar ein hiechyd meddwl a chorfforol a'n lles, yn ogystal â'n gallu i warchod ein bywoliaeth.”

Yn awr, yn fwy nag erioed, mae angen i ni feddwl am lleod a chreu lleod. Dyma fydd ein gwerth craidd yn y gwaith rydym yn ei wneud i sicrhau adferiad Cymru. Bydd y camau adfywio a gymerwn ar bob lefel yn cael eu cyfeirio gan feddwl integredig ac nid hwylustod tymor byr a all arwain at ddeilliannau tymor hwy negyddol.”

Adeiladu Lleod Gwell Rhagair gan Julie James AS (t2)

“Gydag ymarfer corff a chyswllt cymdeithasol mor hanfodol i'n hiechyd a'n lles, mae'r pandemig wedi atgyfnerthu'r angen am strydoedd sydd wedi'u cynllunio'n dda, sy'n canolbwyntio ar bobl. Mae hyn yn sail i'r polisi 'strydoedd gweithredol a chymdeithasol' ym Mholisi Cynllunio Cymru, a gefnogir gan Lawlyfr Strydoedd 6 a'i ganllaw cydymaith Llawlyfr Strydoedd 27. Noda Polisi Cynllunio Cymru yn glir y dylai dyluniad strydoedd fod yn seiliedig ar egwyddorion dylunio trefol ac nid y dull confensiynol a arweinir gan beirianeg ym Mwletin Dylunio 32 sydd bellach wedi'i ddisodli.”

Dylai cynllunwyr barhau i herio uniongrededd, ffyrdd o feddwl a chynigion datblygu sy'n seiliedig ar arferion a safonau hen ffasiwn, megis y rhai ym Mwletin Dylunio 32, ac i hybu creadigrwydd, cydweithio a dyluniadau stryd sy'n ymateb i'r canllawiau yn y Llawlyfr Strydoedd. Bydd Llywodraeth Cymru yn cefnogi penderfyniadau o'r fath i helpu i greu lleod gwell.”

(Adeiladu Lleod Gwell t17)

CDLI Abertawe

1.20 Mae'r ymagwedd gyfannol at greu lleoedd a rheoli lleoedd



fel a amlinellir mewn polisi, canllawiau a chyngor cenedlaethol wedi'i halinio â CDLI mabwysiedig Abertawe a'i hyrwyddo ynddo. Y CDLI yw'r ddogfen polisi cynllunio leol drosgynnol ac yn

darparu'r fframwaith polisi lleol statudol y mae'n rhaid penderfynu pob cais cynllunio a gyflwynir o fewn y Sir yn ei erbyn. Mae'r Polisiâu CDLI yn ymwreiddio'r egwyddor y mynnir i ddatblygu greu lleoedd a manau o safon yn ddiamwys. Maent yn pwysleisio bod gan yr holl ddatblygiadau newydd, ni waeth pa mor fach y maent, y potensial i gyfrannu mewn ffordd gadarnhaol a phwrpasol at sut y caiff lle ei brofi a'i fwynhau.

1.21 Mae Polisi'r CDLI PS 2 '**Creu Lleoedd a Rheoli Lleoedd**' yn mynnu'n benodol bod y datblygiad yn creu lleoedd o safon trwy ymagwedd o ddeall ac ymateb i gyd-destun a chymeriad y safle sy'n destun y cais. Mae'n amlygu bod yn rhaid rhoi ystyriaeth nid yn unig i'r adeilad ond i'r gofod o'i gwmpas hefyd. Mae Polisi PS2 yn darparu ffon fesur y bydd effeithiau cais yn cael eu mesur yn ei herbyn ac mae'n ganllaw i ystyried yr effeithiau posib ar dreftadaeth ddiwylliannol, amgylchedd naturiol, amwynder cyhoeddus, iechyd a llesiant, parcio, tirlunio, hygyrchedd a thrafnidiaeth.

Yn benodol mae Polisi PS 2 yn mynnu'r canlynol:

“Dylai datblygu fwyhau ansawdd lleoedd a gofodau ac ymateb yn gadarnhaol i agweddau ar gyd-destun a chymeriad lleol sy'n cyfrannu at ymdeimlad o le”.

1.22 Mae'r Canllaw hwn yn amlygu sut y gall mewnlenwi preswyl a/neu ddatblygiadau tir cefn newydd sydd wedi'u dylunio'n dda gyd-fynd â gofynion PS2, a gwneud cyfraniad pwysig at gymunedau cynaliadwy. Gall y canllaw helpu i sicrhau bod ymgeiswyr yn gallu datblygu safleoedd bwlch a lleiniau tir cefn addas ar gyfer datblygiad preswyl mewn ffordd sy'n parchu cymeriad y gymdogaeth leol ac ar yr un pryd yn ceisio diogelu hawliau a llesiant cymdogion hefyd.

1.23 Yn ogystal â PS 2, mae'r CCA hwn yn darparu arweiniad a gwybodaeth gefnogol hefyd ar gyfer nifer o bolisiau CDLI eraill gan gynnwys y canlynol (ond heb gael eu cyfyngu iddynt:

- PS 1: Lleoedd Cynaliadwy
- ER 1: Newid yn yr Hinsawdd
- ER 2: Rhwydwaith Seilwaith Gwyrdd Strategol
- ER 4: Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AoHNE) Gŵyr)
- ER 8: Cynefinoedd a Rhywogaethau
- ER 9: Rhwydweithiau Ecolegol a Nodweddion o Bwysigrwydd ar gyfer Bioamrywiaeth
- ER 11: Coedydd, Perthi a Datblygu
- HC 2: Cadwraeth neu Fwyhau Adeiladau a Nodweddion


- EU 2: Ynni Adnewyddadwy a Charbon Isel mewn Datblygiadau Newydd
- RP 4: Llygredd Dŵr a Diogelu Adnoddau Dŵr
- SI 1: Iechyd a Llesiant
- SI 8: Diogelwch Cymunedol
- T 8: Parcio

1.24 Mae'n bosib y bydd polisïau CDLI eraill na chyfeirir atynt yn y rhestr flaenorol a allai fod yn berthnasol hefyd i rai datblygiadau mewnlenwi a/neu dir cefn, ac mae'n bwysig felly y darllenir y Canllaw ar y cyd â holl bolisïau perthnasol y Cynllun Datblygu a fabwysiadwy.

1.25 Mae'r Canllaw hwn yn ffurfio rhan o gyfres o CCA sy'n darparu Canllawiau Creu Lleoedd ar gyfer datblygu yn Abertawe, gan gynnwys:

- Canllawiau Creu Lleoedd ar gyfer Datblygiad Deiliaid Tai
- Canllawiau Creu Lleoedd ar gyfer Datblygu Mewnlenwi a Thir Cefn
- Canllawiau Creu Lleoedd ar gyfer Datblygiadau Canllawiau Creu Lleoedd ar gyfer AoHNE Gŵyr

1.26 Mae'n rhaid i unrhyw ddatblygiad arfaethedig a fyddai'n darparu 'grŵp o dai' gydymffurfio ag 'Egwyddorion Creu Lleoedd Cyffredinol' y CCA 'Canllawiau Creu Lleoedd ar gyfer Datblygiadau Preswyl', yn bennaf unrhyw gynigion ar gyfer 10 annedd neu fwy.



Canllaw Cynllunio Atodol Cyflenwol

1.27 Yn ogystal â'r gyfres o CCA sy'n gysylltiedig â Chreu Lleoedd, mae CDLI Abertawe hefyd yn cael ei gefnogi gan ystod o CCA eraill sy'n ystyriaethau materol ar gyfer gwneud penderfyniadau ar geisiadau cynllunio. Mae hyn yn cynnwys, ond nid yw'n gyfyngedig i, y CCA canlynol:

- Gwarchod Coed
- Seilwaith Gwyrdd
- Bioamrywiaeth
- Safonau Parcio (i'w ddiweddarau)
- Rhwymedigaethau Cynllunio

- 1.28 Yn ogystal â CCA mabwysiedig, ceir dogfennau Canllaw eraill gan y Cyngor a allai fod yn berthnasol wrth gyfeirio cynigion. O bwys penodol yw **Canllaw Dylunio Strydoedd y Cyngor**, sy'n nodi safonau manwl i sicrhau bod strydoedd diogel a hygyrch a arweinir gan le yn cael eu darparu, yn unol ag argymhellion Polisi Cynllunio Cymru, NCT 18, CDLI Abertawe a'r Llawlyfr Strydoedd. Nid CCA mo'r ddogfen hon, yn hytrach mae'n ganllaw defnyddwyr ar gyfer datblygwyr a fydd yn cael eu diweddarau o bryd i'w gilydd fel y bo angen. Mae'n nodi'r egwyddorion allweddol ac yn darparu enghreifftiau amrywiol i ddangos sut y gellir integreiddio'r gwaith o greu lleoedd yn llwyddiannus wrth ddylunio strydoedd ar wahanol raddfeydd. Mae'r Canllaw Dylunio Strydoedd ar gael ar wefan y Cyngor.
- 1.29 Wrth wneud cais, mae'n rhaid i gais yr ymgeisydd dangos sut mae'r cynigion yn bodloni gofynion yr amrywiaeth eang o bolisiau ac arweiniad a ddefnyddir gan y Cyngor.

Strwythur y Ddogfen a'r Canllaw Defnyddiwr

- 1.30 Mae rhan graidd y canllaw hwn yn esbonio'r gwahanol faterion manwl sy'n ymwneud â Chreu Lleoedd, Treftadaeth a Dylunio y mae'n rhaid eu hystyried wrth baratoi cais.
- 1.31 Wrth ddefnyddio'r Canllaw Dylunio dylech ddarllen yn gyntaf y 'Gofynion Creu Lleoedd Trosgynol' yn Adran 3.0, sy'n cynnwys cyngor ar 'Egwyddorion Allweddol Creu Lleoedd' yn ogystal â chyngor ar 'Breifatrwydd, Amwynder a Chysur'. Mae Adran 3.0 hefyd yn cynnig canllawiau ar sut i ymgorffori'n llwyddiannus y nodweddion Bioamrywiaeth, Seilwaith Gwyrdd (SG), a Systemau Draenio Cynaliadwy (SUDs) angenrheidiol mewn datblygiadau newydd.
- 1.32 Dim ond ar ôl ystyried yr Egwyddorion Trosgynol hyn y dylech wedyn ddarllen drwy'r nodiadau canllaw dylunio penodol sy'n berthnasol i'ch cynigion; Adran 4.0 'Canllawiau ar gyfer Datblygu Mewnlenni' ac Adran 5.0 'Canllawiau ar gyfer Datblygu Tir Cefn'.
- 1.33 Mae'r holl ddimensiynau a ddatgenir neu a nodir yn y canllaw dylunio hwn yn ymwneud â mesuriadau allanol oni nodir yn wahanol.
- 1.34 Mae'r egwyddorion a nodir yn y Canllaw yn berthnasol i waith nad oes angen caniatâd cynllunio ar ei gyfer ond a all effeithio ar amwynder a'r strydlun.

2.0 Y Broses Ddylunio

Arfarnu'r Cyd-destun

- 2.1 Wrth eu natur mae gan Ddatblygu Mewnlenni a Thir Cefn berthynas agos â'r cyd-destun sydd eisoes yn bodoli. Gan hynny, dylai arolwg trylwyr o'r safle a'r ardal gyfagos fod yn fan cychwyn.
- 2.2 Mae'n bwysig deall cyd-destun ffisegol unrhyw gynnig. Gellir cyflawni hyn drwy archwilio'r treflun a'r dirwedd o amgylch y safle a fydd yn datgelu maint tai, gerddi ac ati. Efallai y bydd lleoliadau lle mae gerddi mawr yn rhan o gymeriad ardal neu lle mae'r llystyfiant mewn gerddi mawr o bwysigrwydd gweledol neu ecolegol y mae'n rhaid eu diogelu, felly nid yw pob ardal yn addas i'w datblygu.
- 2.3 Mae hefyd yn bwysig arfarnu cyd-destun gweledol y cynnig. Gellir cyflawni hyn drwy arolwg ffotograffiaid ac archwilio ffotograffiaeth/mapiau o'r awyr.
- 2.4 Yn gyffredinol dylai dyluniad cynlluniau gael ei lywio gan adeiladau uniongyrchol gyfagos a chymeriad yr ardal ehangach. Dylid dylunio hyd yn oed cynigion tir cefn na fyddent mewn golwg gyhoeddus amlwg i gydweddu â'u hamgylchoedd.
- 2.5 Mae Comisiwn Dylunio Cymru (CDC) wedi cynhyrchu *'Canllawiau ar Ddadansoddi Safle a Chyd-destun: Pennu gwerth safle'* a ddylai fod yn ddeunydd darllen hanfodol ar gyfer holl ddylunwyr a datblygwyr ceisiadau cynllunio mawrion. Mae'r ddogfen hon yn disgrifio dull

strwythuredig o ddadansoddi lleoedd gan ganolbwyntio ar ddeilliannau gyda'r cwestiwn 'Pa Wahaniaeth?'

"Mae dadansoddi safle yn rhan hanfodol o'r broses gynllunio a dylunio. Nid oes unrhyw ddatblygiad yn digwydd ar ei ben ei hun – dylanwedir arno gan gyflwr y safle, ac yn ei dro, bydd yntau'n effeithio ar ei gyd-destun. Mae dadansoddi safle a chyd-destun da yn creu'r sylfaen i ddylunio da. Mae dadansoddi safle a chyd-destun da yn creu'r sylfaen i ddylunio da".

(Canllawiau ar Ddadansoddi Safle a Chyd-destun: Pennu gwerth safle)

- 2.6 Mewn rhai lleoliadau efallai y bydd lle ar gyfer datrysiad dylunio cyfoes o ansawdd uchel ac efallai mai dulliau o'r fath yw'r opsiwn gorau i oresgyn cyfyngiadau safleoedd, fodd bynnag caiff y rhain eu barnu fesul achos. Mae'n rhaid egluro a chyfiawnhau'r holl gynigion dylunio yn y Datganiad Dylunio a Mynediad (DDM) i ddangos proses ddylunio resymegol o ddadansoddi hyd at y cynigion terfynol.

Dynodiadau Statudol

- 2.7 Os yw'r safle mewn Ardal Gadwraeth neu AoHNE Gŵyr, yna mae'n ddyletswydd ar y Cyngor i fynnu cadwraeth neu wella cymeriad yr ardaloedd hyn. Gall hyn olygu bod safleoedd bwlch, gerddi mawr a/neu llystyfiant aeddfed yn rhan hanfodol o gymeriad ardal a bydd colli'r nodweddion hyn mewn unrhyw ffordd yn cael ei wrthsefyll. Pan ystyrir bod datblygiad yn briodol, bydd pwyslais cynyddol ar ansawdd. Bydd ystyriaethau tebyg yn berthnasol os bydd cynnig yn effeithio ar adeilad rhestredig neu ei leoliad.

Y Safle ac Arolygon Cyd-destun

- 2.8 Mae arolwg cywir o'r safle, lefelau, nodweddion, llystyfiant, ecoleg, ffiniau yn ogystal ag uchder, graddfa, nodweddion cymeriad, deunyddiau adeiladau cyfagos yn bwysig (yn enwedig ar gyfer safleoedd llai) i sicrhau y gellir cynnwys datblygiad mewn gwirionedd ac i ganiatáu asesiad cywir o'r cynigion yn eu cyd-destun.

Seilwaith Gwyrdd a Bioamrywiaeth

- 2.9 Yn aml mae safleoedd yn cynnwys coed a pherthi. Nid yw llystyfiant aeddfed yn cael ei ddisodli'n hawdd a dylid ei gadw lle y bo'n bosib gan y gall leddfu effaith datblygiad a bod o fudd i fioamrywiaeth. Pan gedwir y nodweddion hyn, dylai'r datblygiad wneud darpariaeth ddigonol ar gyfer eu cadw yn y tymor hir. Dylai unrhyw gais am ddatblygu pan fydd coed ar safle neu'n bargodi drosto, gynnwys Arolwg Coed sy'n cydymffurfio â'r Safon Brydeinig bresennol.
- 2.10 Mae rhai coed hefyd yn destun Gorchmynion Cadw Coed (GCC) ac mae angen caniatâd cynllunio ar gyfer gwaith ar goed dynodedig o'r fath neu i'w symud. Cynghorir ymgeiswyr felly i wirio statws unrhyw goed y mae'r datblygiad arfaethedig yn effeithio arnynt gan fod y rhain yn ystyriaeth berthnasol wrth benderfynu ar geisiadau. At hynny, bydd angen caniatâd hefyd ar gyfer gwaith ar goed mewn Ardaloedd Cadwraeth.

Mynediad i Bawb

- 2.11 Mae mynediad i bawb yn ystyriaeth ar bob graddfa ddatblygu. Er y gall datblygiadau mewnlenwi a thir cefn 'gysylltu' â'r seilwaith presennol, dylent fod yn hygyrch yn eu rhinwedd eu hunain. Dylai hyn gynnwys ystyried llwybrau nesáu, manau parcio a mynedfeydd i adeiladau o safbwynt ymwelwyr a deiliaid. Dylid rhoi ystyriaeth i'r cysyniad 'Cartrefi Gydol Oes' lle mae cartref wedi'i ddylunio i fod yn hyblyg i ganiatáu newid dros amser wrth ymateb i anghenion newidiol yr aelwyd. Nid yn unig y mae hyn yn gynhwysol, mae hefyd yn caniatáu i gymunedau aros gyda'i gilydd yn hytrach na bod unigolion a theuluoedd yn gorfod symud ymlaen i wahanol lety wrth i'w hanghenion newid.

Diogelwch Cymunedol

- 2.12 Dylai'r gwerthusiad o'r cyd-destun gynnwys adroddiadau am droseddu i helpu cyfeirio mesurau i ostwng troseddu neu ymddygiad gwrthgymdeithasol, a bydd gan hyn oblygiadau ar gyfer y dyluniad. Mewn rhai achosion gall datblygiad mewnlenwi i bob pwrpas 'diogelu' ffiniau a oedd yn flaenorol yn agored neu gall edrych dros ardaloedd nas goruchwyliwyd o'r blaen drwy ddatblygiadau newydd, ond gall rhai datblygiadau tir cefn agor i fyny'r hyn a oedd yn gerddi cefn diogel yn flaenorol. Er mwyn isafu cyfleoedd i droseddu ddigwydd neu waethygu, dylid cymhwyso egwyddorion diogelwch cymunedol yn unol ag egwyddorion Diogel trwy Ddylunio heb wrthdaro ag egwyddorion creu lleoedd.

Cyngor cyn cyflwyno cais – Gwella cyflymder ac ansawdd

2.13 Gall cyngor cyn ymgeisio gan y Cyngor gynorthwyo wrth wella ansawdd y datblygiad a helpu i gyflymu'r broses o benderfynu ar y ceisiadau cynllunio dilynol. Felly, fe'ch anogir yn gryf i gyflwyno pecyn cyn-ymgeisio i'w ystyried, yn enwedig ar gyfer safleoedd a datblygiadau sensitif. Mae cynigion annerbyniol nad ydynt wedi bod drwy gyn-ymgeisio yn debygol o gael eu gwrthod heb drafodaethau.



2.14 Er mwyn gwneud y defnydd gorau o adnoddau'r Cyngor a galluogi'r awdurdod i ddarparu cyngor cyn-ymgeisio pwrpasol, disgwyli'r wybodaeth a ganlyn:

- Datganiad Dylunio a Mynediad Drafft
- Cynllun o leoliad y safle
- Cynllun cychwynnol y safle
- Strategaeth ddraenio
- Gweddlluniau a golygfeydd strydlun

2.15 Wrth i'r dyluniad gael ei ddatblygu a bod cynlluniau manwl yn cael eu paratoi gellir rhoi cyngor manylach wedyn. Bydd yr ymateb yn gynhwysfawr, gan ymgorffori barn holl feysydd gwasanaeth perthnasol y Cyngor.

2.16 Mae opsiwn i ymrwmo i Gytundeb Perfformiad Cynllunio (CPA) lle mae'r ACLI a'r Datblygwr yn cytuno ar ddyddiadau allweddol ar gyfer y broses cyn ymgeisio a'r broses benderfynu, gyda ffi yn cael ei thalu i gefnogi adnoddau'r broses hon.


2.17 Mae gofyniad i'r holl gynlluniau datblygiad preswyl mawr (10+ o gartrefi) i ymgymryd ag ymgynghori cyn-ymgeisio statudol (sef YCY) gyda'r gymuned leol ac ymgynghoreion statudol perthnasol am gyfnod o 28 niwrnod. Argymhellir ceisio cyngor cyn-ymgeisio gan y Cyngor i ddeall pwyntiau dylunio allweddol cyn y broses hon.



Ffig 2.1 Tai'r Dyfodol a ddyluniwyd gan blant mewn ymgynghoriad digwyddiad chwarae mewn perthynas â'r ddogfen ganllaw hon

Datganiad Dylunio a Mynediad - Esbonio a Chyfiawnhau

2.18 Mae'n rhaid i ddatganiad Dylunio a Mynediad (DDM) gyd-fynd â phob cais cynllunio ar gyfer 10 tŷ neu fwy. Dyma gyfle i esbonio a chyfiawnhau cynigion.



2.19 Mae Llywodraeth Cymru wedi paratoi canllawiau ar gynnwys DDM (*Datganiadau Dylunio a Mynediad yng Nghymru - Ebrill 2017*). Er y dylai maint yr wybodaeth a ddarperir adlewyrchu graddfa'r cynnig a sensitifrwydd y cyd-destun, bydd angen i'r holl ddogfennau DDM 'adrodd stori' y cynnig o ddadansoddi'r safle/cyd-destun, adnabod cynseiliau, pennu gweledigaeth, profi opsiynau, datblygu dyluniad, esbonio'r cynnig terfynol. Gellir gwneud hyn gan ddefnyddio darluniadau, cynlluniau, ffotograffau a brasluniau fel y bo'n briodol. Ar gyfer cynlluniau mwy eu maint o 50 neu fwy o gartrefi, disgwylir y bydd y DDM yn cynnwys adran sy'n esbonio sut fydd y cynnig yn creu lle iach.

[Mae'r DDM] "..... yn ddogfen a ddylai ystyried cwestiwn allweddol: 'pam ei fod fel hynny?' drwy egluro'r modd y mae'r dyluniad wedi ymateb i safle, cyd-destun, briff, gweledigaeth, polisi ac amcanion perthnasol dylunio da. Argymhellir y dylai'r DDM fod yn gryno ac yn cynnwys darluniau ble bynnag y bo modd er mwyn amlygu'r wybodaeth sy'n allweddol i'r dyluniad.'

Cyflwyno Lleod

2.20 Mae CDLI Abertawe yn cydnabod ym Mholisi IO 1 'Cefnogi Rhwymedigaethau Seilwaith a Chynllunio' mai rhan hanfodol o gyflawni datblygu cynaliadwy yw sicrhau bod modd datblygu safleoedd o ran hyfywedd ariannol. I gefnogi'r polisi, mae paragraff 2.4.10 yn nodi: *'Mae'r Cyngor yn disgwyl y bydd y costau sy'n ymwneud ag unrhyw fesurau sydd eu hangen i wneud y datblygiad yn hyfyw ac yn gynaliadwy yn cael eu hystyried yn gynnar yn y broses ddatblygu (gan gynnwys caffael tir) er mwyn sicrhau y cyflawnir gwerthoedd a chostau realistig fel rhan o'r arfarniad datblygu'*. Mewn achosion lle mae datblygwyr yn mynnu bod costau eithriadol a/neu annormal sy'n gysylltiedig â chreu lleod a gofynion eraill yn cael effaith arwyddocaol ar hyfywedd cyflwyno'r cynnig, bydd angen i'r fath gostau gael eu nodi a'u hasesu gan bob parti perthnasol mewn modd agored a thryloyw gan ddefnyddio methodolegau asesu hyfywedd priodol. Mae rhagor o fanylion am y defnydd o fodelu a dadansoddi hyfywedd cynhwysfawr gan hyrwyddwyr safleoedd a'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau ar gael yn <https://www.abertawe.gov.uk/mdd>

3.0 Gofynion Creu Lleoedd Trosgynnol

3.1 Mae datblygiadau preswyl mewnlenni a thir cefn priodol yn cynnig y cyfle i ddarparu cartrefi mewn lleoliadau sydd â chysylltiad da â chymunedau, cyfleusterau a chlydiant cyhoeddus sy'n bodoli eisoes, gan llynu wrth y dyheadau i greu cymunedau cynaliadwy a chydlynol tra'n cynyddu dwyseddau mewn aneddiadau sy'n bodoli eisoes. Fodd bynnag, gall y math hwn o ddatblygiad gael effaith sylweddol ar amwynder deiliaid eiddo cyfagos a gall newid cymeriad ardal yn sylfaenol. Mae'n bwysig felly i daro'r cydbwysedd cywir rhwng galluogi aildefnyddio tir mewn lleoliadau hygyrch/cynaliadwy, ac ar yr un pryd sicrhau nad yw hyn yn cael effaith andwyol ar faterion fel amwynder, diogelwch, cymeriad.

3.2 Ystyrir yr holl gynigion datblygu ar gyfer datblygu mewnlenni a thir cefn preswyl gan roi sylw i'r gofynion Creu Lleoedd trosgynnol a nodir yn y bennod hon, yn ogystal â'r arweiniad perthnasol naill ai yn naill ai Bennod 4 neu 5.

3.3 Diffinnir y gofynion trosgynnol hyn o dan y penawdau canlynol yn y paragraffau isod:

- Egwyddorion Allweddol Creu Lleoedd
- Cyflawni Dwysedd Addas
- Strydoedd a Arweinir gan Le
- Enillion a Gwelliannau Bioamrywiaeth
- Seilwaith Gwyrdd (SG)
- Systemau Draenio Cynaliadwy (SUDs)
- Preifatrwydd, Amwynder a Chysur



Egwyddorion Allweddol Creu Lleod

- 3.4 Mae'r cyngor yn ymrwymedig i integreiddio egwyddorion creu lleod a dylunio da wrth greu datblygiadau ar bob graddfa. Mae egwyddorion creu lleod wrth wraidd agenda cynllunio strategol y cyngor ac yn yr un modd maent yn rhan sylfaenol o'i ymagwedd at reoli datblygu. Yn syml, mae creu lleod yn ymagwedd 'sy'n canolbwyntio ar bobl' at gynllunio, dylunio a rheoli lleod a manau. Mae'n ceisio creu adeiladau ac ardaloedd lle byddai pobl am fyw a gweithio ynddynt, yn ogystal â threulio amser hamdden ynddynt.
- 3.5 Mae pwysigrwydd creu lleod wedi'i gynnwys fel un o gonglfeini'r agenda gynllunio genedlaethol yng Nghymru a'r amcanion datblygu cynaliadwy sy'n sail iddi. Pwysleisir hyn yn *Siarter Creu Lleod Cymru 2020* sy'n ceisio annog pawb sy'n ymwneud â'r broses gynllunio i feddwl am y 'lleod yn eu cyfanrwydd' yn hytrach na fel datblygiadau unigol neu ddefnydd tir ar wahân.
- 3.6 Mae'r chwe egwyddor a amlinellir yn y Siarter Creu Lleod yn cynnwys amrywiaeth o ystyriaethau sy'n cyfrannu at sefydlu a chynnal lleod da - Pobl a'r Gymuned, Lleoliad, Symudiad, Defnydd Cymysg, Manau Cyhoeddus a Hunaniaeth.
- 3.7 Dylai'r egwyddorion trosgynnol hyn gael eu hadlewyrchu yn natblygiad mewnlenwi a thir cefn, ac amcan y canllaw hwn yw cyflawni datblygiad o ansawdd da sy'n integreiddio'n gadarnhaol â'r cyd-destun, yn cadw amwynder yr eiddo presennol ac yn rhoi amgylchedd byw o ansawdd uchel i ddeiliaid y datblygiad newydd.
- 3.8 Gall pob datblygiad newydd gyfrannu mewn rhyw ffordd at greu lleod, a dylanwadu ar sut caiff y lle hwnnw ei brofi a'i fwynhau, a fydd yn etifeddiaeth i genedlaethau o breswylwyr ac ymwelwyr yn y dyfodol. Mae'r arweiniad hwn, a'r polisiâu CDLI ychwanegol, yn hyrwyddo y dylid defnyddio ymagwedd gyfannol at greu lleod a rheoli lleod ym mhob ardal ac ar ystod o raddfeydd er mwyn creu etifeddiaeth wirioneddol gynaliadwy yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Yn hanfodol, mae angen ymagwedd gyfannol sy'n dod â nifer o feysydd gwahanol at ei gilydd er mwyn creu lleod llwyddiannus, neu gyflawni newidiadau cadarnhaol mewn lleod presennol



Creu Lleod Cymru
Placemaking Wales

Cyflawni Dwysedd Addas

- 3.9 Nid oes targed amrediad dwysedd ar gyfer datblygiadau mewnlenwi a thir cefn, yn hytrach penderfynir ar nifer a graddfa'r adeiladau gan roi ystyriaeth i gyd-destun, hygyrchedd ac amwynder. Mae Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040 yn pennu egwyddorion creu lleoedd cenedlaethol gan gynnwys yr awgrym y dylai datblygiadau newydd mewn ardaloedd trefol anelu at ddwysedd o 50 o anheddau yr hectar o leiaf (net), gyda dwyseddau uwch mewn lleoliadau mwy canolog a hygyrch. (Dyfodol Cymru t66). Nodir y gallai'r fath ffordd o fyw dwysedd uchel yng Nghymru'r Dyfodol gefnogi llwyddiant economaidd a chymdeithasol trefi a dinasoedd yn y dyfodol, gan gynnwys cynnal cludiant a chyfleusterau cyhoeddus a chynlluniau adfywio ardaloedd canolog. Er hynny wrth gwrs, mae'r fath ddwyseddau'n galw am ffurf ar ddatblygu nad yw fel arfer yn addas i leoliadau mwy maestrefol, lled-wledig a gwledig.
- 3.10 Mae adeiladu ar ddwyseddau uchel yn creu amgylchedd trefol mwy dwys ac amrywiol, sy'n mynnu safonau arbennig o uchel o ran creu lleoedd er mwyn cydbwysu'r effeithiau posib ar amwynder yn erbyn yr angen am ddatblygu mathau mwy cryno o fyw mewn rhai lleoliadau. Lle cynigir dwyseddau uwch yn y lleoliadau mwyaf canolog a hygyrch, bydd hyn fel arfer yn gofyn bod cynlluniau'n ymwneud â fflatiau'n gyfan gwbl, neu fel mwyafrif. Mae'n annhebygol y gellir cyflawni'r dwyseddau sy'n agos at 50 o anheddau yr hectar heb nifer sylweddol o fflatiau a/neu gyda nifer sylweddol o dai sydd â gerddi preifat ac ardaloedd parcio preifat, ynghyd â'r gofynion angenrheidiol ar gyfer

darpariaeth SG a SuDS. Gall cynlluniau dwysedd uchel hefyd gynnwys adeiladau uchel, ond ni fydd hyn yn briodol ym mhob achos.

- 3.11 Wrth ddylunio ar gyfer ffordd o fyw dwysedd uwch, rhaid i gynigion ystyried ystod eang o faterion ar y cyd, gan gynnwys: cymeriad yr anheddiad o'i amgylch; hygyrchedd a chysylltedd cymharol y lleoliad trefol; safonau ac ansawdd manau agored cyhoeddus y gallai fod eu hangen; safonau gofod mewnol; gofod allanol preifat; aflonyddwch sŵn posib, a materion trosgynnol cyffredinol sy'n ymwneud ag ansawdd dylunio megis pellteroedd gwahanu priodol. Yn y bôn, ni ddylai cyflawni datblygiad dwysedd uwch fod ar draul cymeriad ardal nac integreiddio gofynion creu lleoedd, ac mae'n rhaid iddo beidio ag arwain at effeithiau andwyol ar iechyd a lles trigolion presennol neu drigolion y dyfodol.

Strydoedd a Arweinir gan Le

3.12 Mae strydoedd gwyrdd sydd wedi'u dylunio'n dda ac yn rhoi pobl yn gyntaf yn allweddol i greu mannau cynaliadwy a chael mwy o bobl i gerdded, beicio a defnyddio cludiant cyhoeddus. Mae Polisi Cynllunio Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i strydoedd newydd fod yn llesol ac yn fannau cymdeithasol yn hytrach nag ar gyfer cerbydau'n unig.

“Gydag ymarfer corff a chyswllt cymdeithasol mor hanfodol i'n hiechyd a'n lles, mae'r pandemig wedi atgyfnerthu'r angen am strydoedd sydd wedi'u cynllunio'n dda, sy'n canolbwyntio ar bobl. Mae hyn yn sail i'r polisi 'strydoedd gweithredol a chymdeithasol' ym Mholisi Cynllunio Cymru, a gefnogir gan Llawlyfr Strydoedd 6 a'i ganllaw cydymaith Llawlyfr Strydoedd 27. Noda Polisi Cynllunio Cymru yn glir y dylai dyluniad strydoedd fod yn seiliedig ar egwyddorion dylunio trefol ac nid y dull confensiynol a arweinir gan beirianneg ym Mwletin Dylunio 32 sydd bellach wedi'i ddisodli”

(Adeiladu Lleod Gwell, T17).”

3.13 Dylid dylunio pob cynllun yn unol â'r gyfres o ddogfennau Llawlyfr Strydoedd sy'n pwysleisio bod strydoedd yn lleoedd i bobl yn bennaf. Mae bywyd cymdeithasol wedi'i ffocysu ar strydoedd – maent yn lleoedd ar gyfer cwrdd, chwarae ac ymlacio. Gan hynny, dylid dylunio strydoedd fel lleoedd mewn cymdogaethau cyflymder isel gyda blaenoriaeth teithio llesol lle nad yw symudiadau cerbydau'n dominyddu. Mae strydoedd hefyd yn elfen bwysig o'r strategaeth seilwaith gwyrdd ar y lefel leol. Ni fydd strydoedd heb blannu yn dderbyniol.

3.14 Bydd y gofyniad am Seilwaith Gwyrdd (SG) ar bob graddfa a gofynion SUDs mandadol yn arwain at strydoedd llawer gwyrddach gydag ymylon/ nodweddion draenio ar un, neu'r ddwy ochr, a phlannu coed heb gyfaddawdu lleiniau gwelededd, gan ychwanegu diddordeb gweledol a naws dymhorol, darparu cysgod, a darparu cynefinoedd. Mae manteision ecolegol a seicolegol coed stryd a phlannu wedi'u profi gan nifer o astudiaethau, a disgwylir y darperir plannu priodol er mwyn achub ar y manteision hyn a bodloni gofynion deddfwriaeth genedlaethol (Deddf PCC a LICD). Hyd yn oed mewn heolydd pengaead a lonydd, disgwylir SG ar ffurf plannu/adeiladu coed i gulhau ffyrdd cerbydau mewn lleoedd penodol sy'n pwysleisio cyflymder isel.

3.15 Mae'r Cyngor yn disgwyl y bydd y rhan fwyaf o strydoedd newydd yn cael eu mabwysiadu; mae hyn yn cynnwys dyluniadau stryd ansafonol, y mae'n rhaid iddynt fod yn nodedig, yn ddiogel, yn hygyrch ac yn gadarn. Er mwyn mabwysiadu strydoedd ansafonol bydd angen i'r tîm dylunio ymgymryd â:


- Phroses archwilio diogelwch ffyrdd Cam 1
- Dadansoddi tracio er mwyn sicrhau mynediad i gerbydau
- Blaenwiriadau gwelededd yn seiliedig ar gyflymder dylunio
- Proses 'archwiliad safon' fel y nodir yn y Llawlyfr Strydoedd.

3.16 Mae'n bwysig nad yw'r broses fabwysiadu S38 ddilynol yn datod y strydoedd a arweinir gan lleoedd y cytunwyd arnynt yn y cam cynllunio. Mae'r Cyngor wedi paratoi Canllaw Dylunio Strydoedd sy'n nodi safonau dylunio stryd derbyniol yn ogystal â'r broses ar gyfer profi a mabwysiadu dyluniadau stryd ansafonol a arweinir gan le.

Enillion a Gwelliannau Bioamrywiaeth

- 3.17 Mae materion sy'n ymwneud â bioamrywiaeth yn ystyriaethau allweddol ar gyfer datblygu **ar bob graddfa**. Dylai cynigion datblygu mewnlenwi a thir cefn geisio lleihau'r effeithiau ar Fioamrywiaeth, cynefinoedd a rhwydweithiau Seilwaith Gwyrdd presennol yn ogystal â chyflwyno mesurau i wella'r fath nodweddion naturiol pwysig.
- 3.18 Mae dull cadarnhaol o ran byw gyda natur sy'n cefnogi gwell bioamrywiaeth yn fuddiol mewn nifer o ffyrdd gan gynnwys ecosystemau mwy sefydlog, rheoli llifogydd, aer glanach ac amgylcheddau mwy dymunol. Bydd graddfa a natur y gwaith arfaethedig yn cael effeithiau amrywiol ar fioamrywiaeth. Bydd angen ystyried agweddau ar y safle yn ogystal â chysylltedd ecolegol oddi ar y safle
- 3.19 Fel a ddisgrifir yn Adran 6 Deddf yr Amgylchedd Cymru, bydd angen buddiant net ar y Cyngor ar gyfer gwelliannau bioamrywiaeth sydd wedi'u hintegreiddio'n llawn i gynigion datblygu. Mae manylion llawn sut y bydd y Cyngor yn cymhwyso'r ymagwedd hon at y broses gwneud penderfyniadau cynllunio wedi'u disgrifio yn y CCA Datblygu a Bioamrywiaeth. Cynghorir ymagwedd amlddisgyblaethol yn gryf a dylai timau dylunio gysylltu mewn cam cynnar â swyddogion perthnasol y Cyngor i sicrhau y comisiynir yr adroddiadau ac arolygon technegol priodol mewn da bryd i osgoi oedi diangen i'r prosiect. Yn achos nodweddion ecolegol, argymhellir ymgysylltu â'r Tîm Cadwraeth Natur ac ymgymryd ag Arfarniad Ecolegol Cychwynnol (AEC) yn gryf i adnabod unrhyw safleoedd dan warchodaeth, cynefinoedd a/neu rywogaethau sy'n bresennol.

- 3.20 Mae ecoleg yn cael ei chynnwys o dan ddeddfwriaeth ar wahân ac mae'n drosedd i achosi niwed a/neu aflonyddwch i rywogaethau a warchodir ac, o'r herwydd, fe'ch cynghorir i gyflwyno Aseiad Ecolegol Cychwynnol (AEC) cyn ymgymryd ag unrhyw waith. Mae'r CCA Bioamrywiaeth yn darparu rhestr wirio o'r mathau o ddatblygiadau y gallai fod angen arolygon rhywogaethau ar eu cyfer. Gweler Atodiad 3 am fanylion ychwanegol ar Fioamrywiaeth.
- 3.21 Dylai cynigion datblygu mewnlenwi a thir cefn ddarparu mesurau gwella bioamrywiaeth a chynefinoedd megis toeon/waliau gwyrdd, blychau nythu adar, nodweddion clwydo ystlumod, tirlunio i gynnwys perthi brodorol, coed ac ardaloedd blodau gwyllt, creu gerddi pwll neu gors, lleihau'r defnydd o ffensys byrddau agos sy'n lleihau athreiddedd/cysylltedd ar gyfer bioamrywiaeth, cynnal llinellau coed presennol a chadw perthi.



Ffig 3.1 Mae waliau Byw/Gwyrdd yn cynnig manteision lluosog gan gynnwys cynefinoedd a gwelliannau bioamrywiaeth yn ogystal â helpu i amsugno a dal dŵr glaw i helpu i leihau llifogydd.

Seilwaith Gwyrdd (SG)

- 3.22 Mae Polisi Cynllunio Cymru (PCC) 10 yn rhoi pwyslais newydd ar sicrhau **manteision amlswyddogaethol** o fewn datblygiadau drwy ddarparu Seilwaith Gwyrdd integredig.
- 3.23 Seilwaith Gwyrdd (SG) yw'r term am rwydwaith o fannau gwyrdd cysylltiedig, **amswyddogaethol, nodweddion naturiol a lled-naturiol eraill a systemau rheoli amgylcheddol**. Caiff y rhain eu dylunio a'u rheoli i ddarparu ystod eang o wasanaethau ecosystem megis puro dŵr, ansawdd aer, gofod ar gyfer hamdden a lliniaru ac addasu'r hinsawdd. Gall y rhwydwaith hwn o fannau gwyrdd (tir) a glas (dŵr) helpu i ddarparu system cefnogi bywyd naturiol i bobl a bywyd gwylt, gwella amodau amgylcheddol ac felly iechyd ac ansawdd bywyd.
- 3.24 Dylai'r man cychwyn ar bob safle fod i weithio o fewn y cyfyngiadau a chyfluoedd amgylcheddol sydd eisoes yn bodoli. Bydd angen i gynigion datblygu mewnlenwi a thir cefn ystyried **SG ar bob graddfa**:
- **Tirwedd** – h.y. nodweddion tirwedd a chynefinoedd cadwedig
 - **Cymdogaeth** – h.y. coridorau gwyrdd, ardaloedd bywyd gwylt
 - **Stryd leol** – h.y. coed stryd, ymylon gwyrdd, coridorau SUDs
 - **Llain leol** – h.y. ffiniau perthi, gerddi glaw, toeon gwyrdd
- Gweler Atodiad 4 am ragor o fanylion am nodweddion SG ar bob graddfa.
- 3.25 Dylid nodi y gall rhai safleoedd fod yn rhan o goridor(au) gwyrdd pwysig ar raddfa'r dirwedd ac efallai na fyddant yn addas i'w datblygu. Gall rhai safleoedd gynnwys nodweddion SG sy'n bwysig ar raddfa'r gymdogaeth (h.y. coed terfyn) a bydd angen cadw'r rhain a'u hymgorffori mewn cynigion.
- 3.26 Dylid darllen yr adran hon hefyd ar y cyd â'r CCA Coed, Gwrychoedd a Choetiroedd ar wahân sy'n nodi'r disgwyliad y bydd yr holl goed categori A a B yn cael eu cadw a'u hintegreiddio i gynigion lle bo hynny'n bosib. Mae'r CCA hwn hefyd yn nodi meini prawf clir a thryloyw ar gyfer pennu nifer y coed newydd sydd eu hangen o ystyried y rhai y bwriedir eu tynnu ymaith. Mae hyn yn seiliedig ar liniaru colli gorchudd canopi nid nifer y coed a gollir yn unig. Disgwylir i goed newydd fod yn rhywogaethau sy'n tyfu'n fawr ar gyfer presenoldeb a chadernid ar unwaith.
- 3.27 O safbwynt tŷ/llain unigol, mae SG yn cynnwys nodweddion fel y rhai a nodir yn yr adran flaenorol ar wella mesurau bioamrywiaeth yn ogystal â gwelliannau eraill megis nodweddion SUDs e.e. gerddi glaw. Mae gerddi'n cyfrannu at wella seilwaith gwyrdd ar lefel leol, yn enwedig pan fo'r rhain yn ymgorffori mesurau gwella bioamrywiaeth a SUDs.
- 3.28 Bydd datblygiadau mewnlenwi fel arfer yn defnyddio seilwaith strydoedd presennol ac ni fyddant



Ffig 3.2 Bydd pantiau yn aml yn rhedeg ochr yn ochr â strydoedd ac efallai y bydd angen eu dylunio ochr yn ochr â choed stryd

yn gyffredinol yn darparu cyfleoedd ar gyfer SG ar lefel stryd, ac felly dylid sicrhau bod mesurau SG ar lefel lleiniau'n cael eu cynnwys.

- 3.29 Bydd datblygiad tir cefn yn aml yn golygu creu rhodfa newydd a rennir/preifat neu cul-de-sac wedi'i fabwysiadu. Mae hyn yn gyfle i gael SG ar lefel stryd h.y. pantiau, coed stryd yn ogystal ag ar fesurau lleiniau.

Systemau Draenio Cynaliadwy (SUDs)

- 3.30 O dan ddeddfwriaeth yng Nghymru, mae pob datblygiad newydd lle mae'r ardal adeiladu yn 100 metr sgwâr neu fwy, yn gofyn am systemau draenio cynaliadwy (SuDs) ar gyfer dŵr wyneb.
- 3.31 Mae'n rhaid i'r SUDs gael ei ddylunio a'i hadeiladu yn unol â Safonau SUDs Statudol a gyhoeddir gan Weinidogion Cymru ac mae'n rhaid i Gynlluniau SUDs gael eu cymeradwyo gan yr Awdurdod Lleol yn rhinwedd ei rôl fel Corff Cymeradwyo SUDs, cyn i'r gwaith adeiladu ddechrau.
- 3.32 Fel arfer, mae nodweddion SUDs yn dod o dan dri chategori:
- Rheoli Ffynhonnell – Toeon gwyrdd, Gerddi glaw, Arwynebau athraidd
 - Systemau Trawsgludiad Athraidd – Pantiau, Draeniau Ffrengig/hidlo
 - Triniaeth Oddefol (Llygredd) – Pyllau dargadw, Gwlyptiroedd.
- 3.33 Ceir rhestr gynhwysfawr o nodweddion yn Atodiad 5.

- 3.34 Mae'n rhaid i SUDs gael eu hintegreiddio a'u cynllunio'n gadarnhaol ochr yn ochr â'r cynllun cynllunio a pheirianneg. Mae'r dull SUDs yn cysylltu â'r dull SG amlswyddogaethol ar **bob graddfa** gyda'r math o nodweddion SUDs sydd wedi'u hintegreiddio i'r datblygiad, mewn llain (h.y. gerddi glaw) a/neu strydlun lleol (h.y. pantiau), yn amrywio gan ddibynnu ar raddfa a chymeriad safle. Dylid esbonio'r strategaeth ddraenio yn y Datganiad Dylunio a Mynediad.



Ffig 3.3 Gall gerddi glaw fod ar lefel yr wyneb a chynnwys casgenni dŵr (brig) neu gellir eu darparu fel blychau plannu

Preifatrwydd, Amwynder a Chysur

- 3.35 Ni ddylai datblygiadau mewnlenwi a thir cefn gael effaith annerbyniol ar ansawdd bywyd (a elwir fel arfer yn 'amwynder preswyl') deiliaid adeiladau, gan gynnwys y defnydd buddiol o dai a gerddi. Wrth benderfynu ar gais cynllunio ar gyfer datblygiad mewnlenwi neu dir cefn, bydd amwynder deiliaid presennol, a deiliaid unrhyw adeiladau arfaethedig yn y dyfodol, yn cael eu diogelu. Ni chaniateir unrhyw gynnig a fyddai'n methu â diogelu amwynder preswyl, gan gynnwys methu â darparu preifatrwydd digonol i ddeiliaid adeiladau presennol neu adeiladau arfaethedig.
- 3.36 Mae'r ystyriaethau allweddol sy'n ymwneud ag amwynder preswyl yn cynnwys cyflawni safonau gofod mewnol perthnasol, darparu digon o le amwynder preifat, ac osgoi effeithiau edrych drosodd, cysgodi a gormesu. At hynny, mae'n rhaid ystyried yr effaith sy'n deillio o fynediad a pharcio o ran sŵn ac aflonyddwch.

Gofod y Tu Mewn i'r Cartref

- 3.37 Mae ansawdd a chyfluniad amgylcheddau byw mewnol arfaethedig yn effeithio'n uniongyrchol ar sut mae cartrefi'n cefnogi gwahanol ffyrdd o fyw ac anghenion amrywiol meddianwyr, a gallant hefyd gael effaith sylweddol ar les pobl. Mae'r rhain yn elfennau pwysig o greu lleoedd i'w hystyried ochr yn ochr â materion fel y gofod amwynder allanol a gynigir, a darparu mannau agored cyhoeddus yn ehangach mewn ardal. Mae'n rhaid i gartrefi fod â chynllun cyfleus a chyfforddus ar gyfer bywyd bob dydd, gyda digon o storffeydd a lle i symud o gwmpas heb deimlo'n glos a/neu'n gyfyngedig wrth ymgymryd â thasgau a dyletswyddau bob dydd, gan gynnwys gweithio o gartref.

- 3.38 Mae safonau gofod mewnol wedi'u cyhoeddi gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru, y gellir eu cymhwyso i wahanol ddaliadaethau a mathau o ddatblygiadau tai (gweler Atodiad A). Bydd cynigion ar gyfer cartrefi newydd a thrawsnewid adeiladau sydd eisoes yn bodoli i gartrefi yn cael eu hasesu gan roi sylw i'r safonau sy'n bodoli, er mwyn helpu i ystyried a yw amgylcheddau byw a gynigir ar gyfer y farchnad agored a chartrefi fforddiadwy yn dderbyniol.
- 3.39 Pan fydd cynigion am gartrefi newydd yn is na'r safonau gofod cyhoeddedig, mae'n rhaid i ymgeiswyr ddangos yn glir pam yr ystyrir bod y math penodol o dŷ a gynigir yn briodol yng nghydestun y cynnig y cynllun ehangach, ac y bydd yn darparu amgylcheddau byw addas gan roi ystyriaeth i ofynion bywyd bob dydd pobl ac anghenion ehangach meddianwyr yn y dyfodol. Dylid darparu cynlluniau llawr i ddangos, er enghraifft, gynlluniau dodrefn posib ac ardaloedd cylchrediad. Gellir darparu'r dadansoddiad a'r cyfiawnhad hwn trwy gyflwyno Datganiad Dylunio a Mynediad.
- 3.40 Bydd gan y Cyngor ymagwedd hyblyg a phragmatig at ystyried addasrwydd mathau penodol o dai sydd o dan y safonau cyhoeddedig, pan fydd y rhain yn rhan o gynllun ehangach sydd fel arall yn bodloni'r gofynion safonol. Ni fydd y fath ymagwedd yn caniatáu i drefniadau byw annerbyniol o fach neu'r rhai na ellir eu defnyddio gael eu cefnogi.
- 3.41 Pan gaiff safonau o ran gofod eu cyhoeddi a/neu eu diweddarau gan Lywodraeth Cymru yn y dyfodol a'u nodi'n gymwys ar gyfer pob cartref, caiff y fath safonau eu defnyddio fel sail briodol ar gyfer asesu derbynioldeb yr amgylcheddau byw mewnol arfaethedig ar bob datblygiad.

Gerddi a mannau amwynder preifat

- 3.42 Dylai maint yr ardd fod yn briodol i faint yr annedd ac ystyriaethau sy'n benodol i'r safle megis topograffeg neu gysgodi.
- 3.43 O ystyried yr angen am lefelau preifatrwydd a digon o le rhwng cartrefi, mae meintiau gerddi'n aml wedi'u pennu gan bellteroedd gwahanu (gweler para 3.49 – 3.61). Disgwylir y bydd meintiau gerddi o leiaf yr un maint ag ôl troed y tŷ y maent yn ei wasanaethu, cyhyd â bod y rhain hefyd yn bodloni'r safonau gwahanu isod. Dylai gerddi fod yn siâp y gellir eu defnyddio (h.y. nid trionglau lletchwith etc. neu eu trefnu fel rhannau bratiog).
- 3.44 Yn ogystal â darparu digon o le, mae'n bwysig sicrhau bod modd defnyddio darpariaeth amwynder awyr agored ac y gall gynnwys patio 3x3 metr ar gyfer eistedd a bwyta awyr agored, yn ogystal â sied fach a sychwr troi, ynghyd â digon o le ar gyfer estyniadau cefn neu ystafelloedd gwydr posib yn y dyfodol.
- 3.45 Efallai y bydd modd mynd i'r afael â gofynion SUDs mewn lleiniau fel gerddi glaw neu ffosydd cerrig. Fodd bynnag, pan na fydd hyn yn bosib, mae'n bosib y bydd angen system o sianeli agored (pantiau) sy'n arwain at ardal wanhau er mwyn rheoli llifoedd draenio i'r rhwydweithiau presennol. Mae'n rhaid i integreiddio SUDs beidio â lleihau'r ardal o ofod amwynder all gael ei defnyddio.
- 3.46 Mae gerddi hefyd yn rhan bwysig o'r strategaeth SG ar y lefel leol a dylent ganiatáu plannu coed newydd sydd wedi'u lleoli'n ofalus a all dyfu i aeddfedrwydd. At hynny, dylid ystyried effaith cysgodi unrhyw goed aeddfed presennol sydd wedi'u lleoli ar ffiniau gerddi hefyd ac efallai y bydd angen darparu gardd hirach.
- 3.47 Pan gynigir fflatiau, disgwylir i falconïau gael eu darparu uwchben lefel y llawr gwaelod. Mae'r rhain yn darparu gofod amwynder defnyddiol a gallant hefyd chwarae rhan bwysig wrth ychwanegu diddordeb gweledol a gweithgarwch at ffryntiadau stryd.
- 3.48 Mae'n rhaid i falconïau fod o faint digonol i ganiatáu i'r lle fod â diben ymarferol. Fel isafswm, dylai balconïau preifat fod yn 3m² ar gyfer anheddau 1-2 person ynghyd â 1m² fesul person ychwanegol a dylid eu trefnu i fod yn lle y gellir ei ddefnyddio ar gyfer eistedd o amgylch bwrdd sydd â lled o 1 - 1.5m.
- 3.49 Pan ddarperir digon o dystiolaeth i gyfiawnhau pam na ellir darparu balconïau, er enghraifft pryderon amwynder, yna dylid ymgorffori balconïau Juliet.
- 3.50 Disgwylir i'r holl fflatiau ddarparu ffenestri gwydr uchder llawn er mwyn mwyafu golau naturiol a golygfeydd allan o'r prif ardal fyw.
- 3.51 Dylai fod gan fflatiau llawr gwaelod fynediad uniongyrchol i ardd breifat/ardal teras o faint y gellir ei gymharu o leiaf â balconïau'r llawr uchaf
- 3.52 Pan fydd adeiladau'n defnyddio toeon i ddarparu mannau awyr agored preifat a mannau amwynder awyr agored eraill, dylai'r cynnig ystyried materion dylunio, edrych drosodd (e.e. sgriniau preifatrwydd) ac atal troseddu, yn ogystal â chydbwyso anghenion amcanion eraill megis ynni adnewyddadwy (e.e. paneli solar) neu fioamrywiaeth (e.e. toeon gwyrdd) mewn cam cynnar yn y broses ddylunio.
- 3.53 Dylai fod gan bob fflat le cymunedol ar gyfer storio gwastraff, storio beiciau'n ddiogel a sychu dillad ac ati.

Diogelu Amwynder Preswyl

EGWYDDORION DYLUNIO ALLWEDDOL: OSGOI GORMESU, CYSGODI AC EDRYCH DROSODD – Y 3 O

- 3.54 **Osgoi Effaith Ormesol:** Ni ddylid lleoli datblygiad deulawr mor agos i'r ffin â gardd eiddo cyfagos fel y byddai'n tresmasu'n annerbyniol ar y naws agored a'r olygfa o'u tŷ a'u gardd. Gall cynigion unllawr ar safleoedd goleddol gael effeithiau tebyg.
- 3.55 Os cynigir wal ddeulawr wag yn agos at ffenestri ystafelloedd trigiadwy sy'n bodoli eisoes, rhaid i'r pellter gwahanu lleiaf fod yn 15m. Mae hyn er mwyn osgoi effaith ormesol ar yr ystafell yr effeithir arni ac i sicrhau goleuo naturiol digonol. Os yw'r wal ochr ar lefel uwch, a dylid cynyddu'r pellter gwahanu 2m am bobgwahaniaeth o 1m mewn lefel.




Ffig 3.5 Mae angen isafswm pellter gwahanu o 15m rhwng wal ddeulawr wag ac ystafell gyfanheddol bresennol

Ystafell gyfanheddol - ystafell a ddefnyddir/y bwriedir ei defnyddio at ddibenion cysgu, coginio, byw neu fwyta. (mae ystafelloedd/lleoedd nad ydynt yn cael eu defnyddio'n rheolaidd fel ystafelloedd ymolchi, toiledau, cynteddau, manau storio, cypyrddau, ystafelloedd aml-bwrpas wedi'u heithrio).


- 3.56 **Osgoi Effaith Gysgodi:** Mae'n bwysig nad yw unrhyw ddatblygiad mewnlenwi neu dir cefn yn lleihau golau'r haul a golau dydd i lefel annerbyniol mewn tai cyfagos. Mae hefyd yn bwysig peidio â bwrw cysgodion mawrion dros dai a gerddi cyfagos. Bydd graddau golau'r haul a golau dydd a gollir a'r cysgod sy'n cael ei fwrw yn dibynnu ar leoliad y datblygiad o'i gymharu â'r haul a'i uchder a'i hyd mewn perthynas ag eiddo sydd eisoes yn bodoli yno.
- 3.57 Mewn llawer o strydoedd mae llinell adeiladu cefn gyffredin lle mae'r tai i gyd o'r un dyfnder. Os yw lloriau uchaf prosiect yn gwrthio allan y tu hwnt i'r llinell adeiladu gefn yna gallai effeithio'n negyddol ar amwynder eiddo cyfagos. Gallai'r cynnig arwain at effeithiau edrych drosodd, gormesol a/neu gysgodi a allai fod yn annerbyniol.

- 3.58 Fel canllaw i asesu faint o olau haul a golau dydd a gollir a'r cysgod sy'n cael ei fwrw, defnyddir y prawf **45 gradd**. Mae hyn yn ymwneud â llinell a gymerir ar 45 gradd ar gynllun o ganol ffenestri'r ystafelloedd drigiadwy agosaf mewn eiddo cyfagos. Gellir ystyried bod unrhyw ran o'r adeilad arfaethedig sy'n ymestyn y tu hwnt i'r llinell yn cael effaith andwyol ar amwynder y deiliaid cyfagos.



Ffig 3.6 Gellir defnyddio'r rheol 45 gradd i asesu faint o olau haul a golau dydd a gollir a faint o gysgod a deflir


- 3.59 Yn achos rhai cynigion datblygu mewnlenni, megis y rhai sy'n ymwneud â strydoedd teras, efallai y bydd hefyd angen profi uchder y datblygiad arfaethedig yn erbyn y **prawf 25 gradd** er mwyn asesu effeithiau goleuo a gormesu posib. Cymhwysir y prawf hwn fel ongl 25 gradd a gymerir o bwynt canol (pwynt canol fertigol a chanol llorweddol) agoriad ffenestr yr ystafell drigiadwy agosaf mewn eiddo cyfagos. Os yw eich datblygiad arfaethedig i gyd yn disgyn o dan linell a dynnwyd ar 25° o'r llorweddol, mae'n annhebygol y bydd effaith sylweddol ar olau dydd a golau'r haul.



Ffig 3.7 Gellir defnyddio'r 'prawf 25 gradd' i asesu goleuni posib ac effeithiau gormesu

- 3.60 Ni fydd peidio â chydymffurfio â'r rheol 25 gradd o reidrwydd yn arwain at wrthod caniatâd cynllunio, ar yr amod y gall dadansoddiad effaith priodol ar yr adeiladau yr effeithir arnynt ddangos bod colli golau naturiol o fewn paramedrau derbyniol.
- 3.61 Mae ffactorau eraill a fydd yn cael eu hystyried yn cynnwys cyfeiriad a lleoliad y cynigion ac unrhyw anheddau cyfagos neu adeileddau eraill. Y rheswm am hyn yw ystyriaethau llwybr yr haul a'r ffaith bod gweddoluniau sy'n wynebu'r de yn cael mwy o haul drwy gydol y dydd. O'r herwydd, bydd eich cynigion yn cael mwy o effaith ar adeiladau a leolir i'r gogledd o'r rhain.

3.62 Mae'r diagram a ganlyn yn dangos llwybrau haul nodweddiadol yr haf a'r gaeaf ar draws yr awyr yn codi o'r dwyrain ac yn machlud yn y gorllewin. Fel y gellir ei weld, bydd gweddoluniau deheuol yn cael mwy o haul yn gyffredinol a bydd y rhai gogleddol yn cael y lleiaf. Gan hynny, dylech ystyried effaith eich cynigion ar eich cymdogion o ran cyfeiriad adeiladu a llwybr yr haul drwy'r dydd.




Ffig 3.8 Llwybrau haul nodweddiadol ar draws yr awyr yn yr haf a'r gaeaf. Dylid rhoi ystyriaeth i gyfeiriad yr adeilad

3.63 **Osgoi Effaith Edrych Drosodd:** Ni ddylai cynigion edrych dros dai cyfagos na'u gerddi preifat i raddau annerbyniol. Os cynigir ystafelloedd trigiadwy fel ystafelloedd gwely, ystafelloedd byw a cheginau ar y llawr cyntaf neu'n uwch, dylid bod yn ofalus iawn i osgoi edrych yn uniongyrchol o ffenestri a balconïau, yn enwedig pan fyddant yn agos at y ffin.


3.64 I ryw raddau mae edrych dros ei gilydd yn gyffredin mewn datblygiadau dwysedd uwch a bydd yr adeg yr aiff hyn yn annerbyniol yn dibynnu ar amgylchiadau unigol. Fodd bynnag, ystyrir bod y canllawiau canlynol yn cynrychioli'r pellteroedd lleiaf yn y rhan fwyaf o achosion er mwyn atal gradd annerbyniol o edrych drosodd.

3.65 Pan fydd ffenestr ystafell drigiadwy arfaethedig yn wynebu ffenestr ystafell drigiadwy sydd eisoes yn bodoli mewn eiddo cyfagos ar draws gardd breifat, dylai'r pellter gwahanu fod **o leiaf 21 metr mewn sefyllfa 'cefn wrth gefn'**.



Ffig 3.9 Isafswm pellter gwahanu 'cefn wrth gefn' o 21m

- 3.66 Nid oes angen gwahaniad 21m rhwng ffyrntiadau anheddau ar draws strydoedd. Yn hytrach, dylai pellteroedd gwahanu gael eu pennu gan gymeriad yr ardal a llinellau adeiladu sefydledig.
- 3.67 Yn ychwanegol at ddiogelu amwynder preswyl eiddo cyfagos, bydd yr awdurdod cynllunio lleol hefyd yn ystyried yr effaith y bydd cynigion yn ei chael ar ofod amwynder preifat cyfagos. Gellir osgoi edrych drosodd uniongyrchol annerbyniol i'r mannau hyn trwy sicrhau bod **pellter gwahanu o 10m o leiaf yn bodoli rhwng ystafell drigiadwy arfaethedig ar y llawr cyntaf neu ffenestr llawr gwaelod uwch a ffin gardd gefn neu ochr eiddo cyfagos.**




Ffig 3.10 Mae angen isafswm pellter gwahanu o 10m rhwng ystafell gyfanheddol arfaethedig ar y llawr cyntaf neu ffenestri uchel ar y llawr gwaelod a ffin gardd gefn/ochr eiddo cyfagos

- 3.68 Gellir lleihau edrych yn lletraws dros gerddi cyfagos drwy leoli ffenestri'n ofalus a chadw bwlch digonol ar ffiniau ochr. Gall perthi sgrinio a phlannu hefyd leihau'r potensial am edrych drosodd. Gall ffenestri gwydr aneglur parhaol i ffenestri bach mewn ystafelloedd nad

dynt yn cael eu hystyried yn 'drigiadwy' neu ffenestri eilaidd bach mewn ystafelloedd trigiadwy helpu i ymdrin â hyn hefyd.

- 3.69 Pan fydd cartrefi wedi'u gosod ar wahanol lefelau slab, neu dros ddeulawr o uchder, gall hyn arwain at effaith edrych drosodd a gormesol ychwanegol. Hefyd, gall yr angen posib am wrthgloddiau neu strwythurau cynhaliol gyfyngu ar y gofod gardd all gael ei ddefnyddio ac mae'n ystyriaeth wrth asesu'r berthynas â chartrefi newydd a chartrefi sy'n bodoli eisoes.
- 3.70 Gan hynny, fel man cychwyn, **dylid cynyddu'r pellter gwahanu sylfaenol o 21m 2m (rhwng ffenestri a ffiniau gardd fel a nodir yn y paragraffau blaenorol) am bob gwahaniaeth o 1m mewn lefel.**



Ffig 3.11 Dylid cynyddu'r isafswm pellter gwahanu 21m 2m ar gyfer pob 1m o wahaniaeth mewn lefel

- 3.71 Pan gynyddir pellteroedd, dylai hyn gynnwys gardd hirach i'r cartref isaf er mwyn darparu ar gyfer unrhyw

oleddau neu adeileddau cynhaliol. Os na ellir cyflawni'r pellteroedd cynyddol, yna efallai y bydd angen datrysiad plannu neu ddylunio. Mewn llawer o achosion, y ffordd orau o asesu a chyflwyno'r berthynas hon yw ar ffurf adran wedi'i darlunio.

preswylwyr cyfagos.

- 3.72 Gall pellter gwahanu gostyngol fod yn dderbyniol pan fo'r tirffurf rhwng yr anheddau a'r triniaethau ffin yn darparu sgrinio derbyniol neu o fewn Ardaloedd Cadwraeth er mwyn adlewyrchu elfennau cadarnhaol o gymeriad lleol. Fodd bynnag, bydd angen cyfiawnhau hyn yn llawn yn y Datganiad Dylunio a Mynediad ategol (sy'n ofynnol ar gyfer ceisiadau o fewn Ardaloedd Cadwraeth).
- 3.73 Os yw adeiladau ar ongl i'w gilydd, neu pan fydd y tirffurf neu driniaethau ffin yn darparu sgrinio addas, mae'n bosib y bydd achosion pan ellir ystyried pellter gwahanu byrrach.
- 3.74 Yn gyffredinol, bydd pellteroedd gwahanu byrrach rhwng adeiladau'n dderbyniol ar gyfer cynigion unllawr gan ddibynnu ar y cyfyngiadau sy'n benodol i'r safle, megis trefniad y ffenestri a'r math o driniaeth ffin.
- 3.75 Mewn rhai sefyllfaoedd cyfyngedig mae'n bosib y bydd yn bosib sicrhau preifatrwydd ac amwynder priodol trwy ddylunio a sgrinio yn hytrach na gwahanu ffisegol. Er hynny, mae'n rhaid dangos hyn yn glir.
- 3.76 **Osgoi Aflonyddwch i Ddeiliaid:** Mae'n bwysig nad yw lleoliad gwaith allanol fel traciau mynediad, mannau parcio, mannau troi a phatios yn tarfu'n ddiangen ar y

4.0 Canllawiau ar gyfer Datblygu Mewnlenwi

Egwyddorion Trosgynnol

- 4.1 Rhoddir blaenoriaeth i gadw neu wella cymeriad y strydlyn neu'r lôn. Caiff yr holl gynigion eu barnu ar y maen prawf hwn yn y lle cyntaf.
- 4.2 Ni fydd pob safle mewnlenwi yn addas i'w ddatblygu a bydd cynigion yn cael eu hystyried fesul achos. Mae rhai bylchau heb eu datblygu mewn ffrytiadau stryd sydd fel arall yn adeiledig yn ardaloedd seilwaith gwyrdd pwysig, ac maent yn rhan annatod o gymeriad ardal drefol, maestrefol neu wledig. Er enghraifft, efallai bod y bylchau hyn yn caniatáu golygfeydd cyhoeddus pwysig, yn llawn coed sy'n bwysig yn weledol, yn darparu llwybrau troed ffurfiol neu linellau awydd anffurfiol, yn cyflawni swyddogaeth amwynder/man agored ffurfiol neu anffurfiol, yn gartref i ecoleg bwysig neu Rywogaethau a Warchodir, yn cael eu defnyddio ar gyfer cynhyrchu bwyd yn lleol, neu'n darparu 'lle i anadlu' mewn ardal sydd fel arall yn adeiledig.



Ffig 4.1 Enghraifft o safle bwlch nad yw'n briodol i'w ddatblygu. Mae'r bwlch a'r coed aeddfed yn nodwedd bwysig o bentref gwasgareddig. Mae'r mater hwn wedi'i amddiffyn yn llwyddiannus mewn apêl.

- 4.3 Pan fydd datblygu'n briodol, mae'n bwysig nodi graddau'r unffurfiaeth neu'r amrywiaeth yn yr ardal yn union o amgylch y safle. Dylai hyn gyfeirio'r ymagwedd ddylunio:
- Mewn ardaloedd o gymeriad unffurf cryf, dylai'r cynnig 'ffitio i mewn' ond nid o reidrwydd bob amser gopïo'r cyd-destun. Er enghraifft, efallai y bydd lle i ymgorffori nodweddion amrywiol mewn adeiladau cyfagos, gan ymateb felly i gymeriad a chyd-destun lleol, ond mewn modd mwy cyfoes.
 - Mewn ardaloedd sy'n dangos amrywiaeth gref, mae cyfle i'r cynigion fod yn wahanol.
- 4.4 Efallai y bydd lle i ddatrysiadau dylunio mwy arloesol a chyfoes mewn ardaloedd sy'n dangos amrywiaeth eang o gymeriad, neu mewn ardaloedd yr ystyrir bod ganddynt deilyngdod pensaernïol cyfyngedig. Fodd bynnag, caiff hyn ei farnu fesul achos a dylid ei esbonio yn y Datganiad Dylunio a Mynediad.



Ffig 4.2 Dyluniad cyfoes mewn ardal o gymeriad cymysg


- 4.5 Wrth asesu cynigion ar gyfer datblygiadau mewnlenwi, bydd y Cyngor yn rhoi sylw arbennig i'r paragraffau canlynol (4.6 - 4.33).

Ymgorffori Nodweddion Presennol

- 4.6 Os yw safle mewnlenni yn cynnwys nodwedd neu nodweddion o arwyddocâd, mae'n rhaid ystyried sut mae'r datblygiad arfaethedig yn cysylltu â hyn. Er enghraifft, dylid rhoi digon o le i goeden gadwedig neu blannu sefydledig pwysig arall dyfu heb effeithio ar amwynder manau amwynder arfaethedig. Dylai llwybr troed neu linell ddymuniad gael ei integreiddio'n dda ac ar yr un pryd cynnal aliniad uniongyrchol, diogel a deniadol yn weledol.

Y Llinell Adeiladu

- 4.7 Disgwylir i gynigion datblygu ddilyn y llinell adeiladu sefydledig lle mae hyn yn nodwedd gref mewn ardal. Bydd cynigion sy'n gwrthio allan, neu sydd wedi'u gosod yn ôl, o'r llinell adeiladu yn aml yn amharu ar gydlynrwydd gweledol ac ansawdd y stryd. Dim ond mewn achosion eithriadol pan fydd llinellau adeiladu/ffryntiadau croesgam yn nodwedd o'r ardal, neu pan fydd cyfiawnhad sylweddol dros wyro oddi wrth y llinell adeiladu sefydledig, y caiff hyn ei ganiatáu. Bydd dadansoddiad o'r cyd-destun hefyd yn dangos pwysigrwydd gerddi blaen o ran seilwaith gwyrdd, ffiniau a chymeriad. Mae dyfnderoedd gerddi blaen yn elfen annatod o ystyried y llinell adeiladu.



Ffig 4.3 Dylai datblygiad barchu'r llinell adeiladu sefydledig lle mae hon yn nodwedd gref o ardal

- 4.8 Mae'n rhaid i bob anedd fewnlenni fod â'u priflun, gan gynnwys ffenestri i ystafelloedd trigiadwy a drws blaen, yn wynebu'r stryd neu'r ardal gyhoeddus gyfagos (er enghraifft parciau, manau agored, ac ati). Mae'r dull hwn yn creu strydlyn hygyrch, deniadol a chroyw sydd hefyd yn fwy diogel yn rhinwedd gwylidwriaeth naturiol. Gall rhai datblygiadau mewnlenni helpu i sicrhau ffiniau agored presennol gyda datblygiadau newydd.




Ffig 4.4 Datblygiad mewnlenni sy'n rhoi diweddariad cynnil o'r arddull frodorol leol tra'n dilyn y llinell adeiladu a graddfa sefydledig.

4.9 Bydd angen i leiniau cornel fod yn 'wynebwedd ddeuol' gyda dau weddlun cyhoeddus mewn perthynas â'r parth cyhoeddus. Wrth ymgymryd â datblygu lleiniau cornel dylai'r briflun gyda drws blaen wynebu'r brif stryd neu lwybr symud. Bydd angen i'r ddau weddlun cyhoeddus feddu ar fanylder da gyda ffenestri pwrpasol yn gweini ystafelloedd trigiadwy ar y ddau ffasâd.

Lled y Llain a'r Adeilad


4.10 Mae'r gofodau rhwng adeiladau yn cael cymaint o effaith ar gymeriad y strydlun â ffurf ac ymddangosiad yr adeiladau. Mae'n rhaid i leiniau fod yn ddigon llydan i ddarparu ar gyfer adeiladau sydd â ffyrntiad o led priodol heb achosi ymddangosiad cyfyng. Dylai lled y llain adeiladu a lled yr annedd arfaethedig fod yn weddol gyson â lled y rhai yn y ffyrntiad presennol i'r stryd.



Ffig 4.5 Dylai lled lleiniau ac adeiladau fod fwy neu lai'n gyson â'r rhai yn y strydlun presennol


Uchder, Graddfa a Masio

4.11 Dylai datblygiadau newydd ddarparu gwahaniad gweledol digonol rhwng adeiladau. Mae hyn yn cynnwys y berthynas rhwng waliau ochr a'r toeon.



Ffig 4.6 Dylid darparu gwahaniad gweledol digonol rhwng adeiladau

4.12 Yn gyffredinol, dylai uchder, ffurf a masio'r adeilad arfaethedig fod yn debyg i uchder y rhai yn y ffyrntiad presennol i'r stryd.



Ffig 4.7 Enghraifft o ddatblygiad newydd nad yw'n parchu uchder/màs adeiladau presennol yn y strydlun

Cymeriad ac Ymddangosiad

4.13 Nid yw'r Canllaw hwn yn ceisio pennu arddull bensaernïol benodol yn fypwyol. Yr ystyriaethau allweddol fydd ffactorau fel graddfa, lleoliad/cynllun a'r llinell adeiladu er mwyn sicrhau perthynas gadarnhaol â'r strydlyn sefydledig.

4.14 Dylai'r man cychwyn ar gyfer cymeriad datblygiad newydd fod arfarniad o gyd-destun y safle.


"Mewn llawer o achosion, bydd arfarniad o'r cyd-destun lleol yn amlygu patrymau nodedig y datblygiad neu'r dirwedd, a'r bwriad fydd cynnal y cymeriad hwn. Mae arfarnu yr un mor bwysig mewn ardaloedd lle mae patrymau datblygu wedi methu ag ymateb i gyd-destun yn y gorffennol. Yn yr ardaloedd hyn dylai arfarnu gyfeirio at atebion sy'n gwrthdroi'r duedd." (NCT12: Dylunio para 4.5)

4.15 Nid yw hyn yn golygu y dylai datblygu newydd geisio dyblygu'r hyn a geir o amgylch y safle, ond yn hytrach y dylai datblygiadau newydd adlewyrchu elfennau cadarnhaol cymeriad lleol, a lle bo'n briodol gall hyn fod mewn modd cyfoes. Dylid nodi'r elfennau hyn o gymeriad mewn arfarniad o gyd-destun y safle a gallent gynnwys:

- Ffurf adeiladau
- Cyfrannedd a graddfa adeiladau
- Lledau lleiniau a gosod yn ôl
- Siâp a goleddf toeon
- Manyllder
- Cyfrannedd a threfniad ffenestri a drysau

- Deunyddiau a lliwiau
- Triniaethau ffiniau
- Gradd cysondeb neu amrywiad

4.16 Gellir adnabod elfennau cymeriad drwy arolwg ffotograffaid o'r ardal o amgylch y safle. Os yw'r safle mewn ardal gadwraeth, efallai y bydd disgrifiad cyhoeddus sy'n nodi'r diddordeb pensaernïol arbennig a dylai'r arfarniad cymeriad fod yn fan cychwyn. Ar gyfer cynlluniau yng Ngŵyr, mae Canllaw Dylunio AoHNE Gŵyr a fabwysiadwyd yn nodi prif elfennau 'Arddull Frodorol Gŵyr'.




4.17 Bydd symud tuag at ffordd o fyw sy'n defnyddio llai o ynni yn newid y ffordd y mae prosiectau trawsnewid a chartrefi newydd yn edrych; dyma gyfle i ddylunio'n gyfoes mewn lleoliadau cymdogaeth gan ddefnyddio deunyddiau modern a phensaernïaeth flaengar.

4.18 Efallai y bydd sefyllfaoedd lle nad oes cymeriad cadarnhaol ar hyn o bryd a all gael ei adlewyrchu yn y safle. Nid cyfiawnhad dros ddylunio dinod mo hwn. Yn hytrach, mae hyn yn gyfle i godi'r bar dylunio a gwella cymeriad ac ansawdd yr ardal, o bosib drwy sefydlu cymeriad cyfoes newydd drwy ail-ddehongli ffurfiau a deunyddiau.

Deunyddiau a Manylion

- 4.19 Dylai'r dadansoddiad cyd-destun fod yn rhan o'ch Datganiad Dylunio a Mynediad. Dylai hyn gynnwys nodi prif ddeunyddiau wal a tho yr ardal.
- 4.20 Dylid dewis deunyddiau i adlewyrchu'r agweddau gorau ar gymeriad lleol ac ar yr un pryd ymdrin â chadernid, addasrwydd i'r diben a hindreuddu. Dylai'r deunyddiau (gwead, lliw) ar gyfer waliau, toeon, ffenestri a drysau, ymateb i'r deunyddiau amlycaf yn yr ardal. Pan nad yw'n bosib paru deunydd penodol, dylid cyflawni cyfatebiaeth gydweiddol.
- 4.21 Dylai maint, cyfran a manylion agoriadau ffenestri a drysau adlewyrchu cymeriad yr ardal.
- 4.22 Pan gynigir to ar oleddf traddodiadol, dylai hyn yn gyffredinol gyfateb i lain a chyfeiriad toeon presennol i'r naill ochr a'r llall. Yn gyffredinol, ni fydd cymysgu gwahanol fathau o doeon (e.e. ar oleddf a thalcen) a/neu wahanol oleddau to ar yr un datblygiad yn cael ei gefnogi.
- 4.23 Dylid cynnwys triniaethau ffiniau yn yr arfarniad o gymeriad. Mae ffiniau blaen yn ddymunol yn y rhan fwyaf o ardaloedd preswyl gan fod y rhain yn helpu i ddarparu bwtres glir rhwng y parthau cyhoeddus a phreifat. Mae hyn yn helpu i atgyfnerthu ymdeimlad o berchnogaeth dros ofod sy'n lleihau cyfleoedd i droseddu.
- 4.24 Dylai unrhyw driniaeth ffin arfaethedig sy'n weladwy yn y parth cyhoeddus gyfateb yn agos i'r rhai a welir yn y strydlyn presennol, yn enwedig pan fo'r rhain yn ffurfio ffryntiad sy'n weledol barhaus ar hyd y stryd. Ni fydd ffensys byrddau agos fel triniaeth unigol yn dderbyniol ar gyfer ffiniau yn y parth cyhoeddus.
- 4.25 Ni chaniateir ffryntiadau agored ar strydoedd gyda ffiniau blaen caeedig ac i'r gwrthwyneb.




Ffig 4.8 Dylai triniaethau ffiniau blaen newydd gyd-fynd â'r rhai yn y strydlyn presennol

Triniaethau Ffiniau


Mynediad a Pharcio

- 4.26 Mae'n rhaid i unrhyw gynig ar gyfer datblygiad mewnlenni gynnwys trefniadau diogel a boddhaol ar gyfer darparu mynediad a pharcio. Cyfeiriwch at CCA Safonau Parcio perthnasol y Cyngor i bennu'r lefel ofynnol o ddarpariaeth parcio.
- 4.27 Ffafrir tramwyfeydd ochr breifat dros barcio ar ffyrntiadau gan fod hyn yn lleihau effaith weledol ceir ar y strydlun Fodd bynnag, pan gynigir parcio priodol ar ffyrntiadau, ni ddylai hyn amharu ar y llinell adeiladu, ni ddylai gyfaddawdu ymgorffori seilwaith gwyrdd ac ni ddylai dominyddu'r strydlun.



Ffig 4.9 Gall parcio yn y tu blaen amharu ar y llinell adeiladu a dominyddu'r strydlun

- 4.28 Er mwyn isafu goruchafiaeth weledol cerbydau wedi'u parcio, dylid cyfuno manau parcio ar ffyrntiadau â phlannu a/neu waliau isel (mewn rhai achosion).
- 4.29 Yn achos anheddau ffyrntiad cul (5m eu lled fel arfer) mae'n rhaid i barcio ar ffyrntiadau beidio â chymryd mwy nag un lle parcio (2.6m o led) ac mae'n rhaid iddo beidio â rhwystro mynediad pawb i'r drws blaen.



Ffig 4.10 Lle bo hynny'n briodol, dylid cyfuno parcio yn nheu blaen yr eiddo â phlannu planhigion isel a/neu osod waliau isel

- 4.30 Dylid gorffen manau parcio a mynediad gydag arwynebau athraidd a'u cyfuno â nodweddion SUDs eraill fel gerddi glaw a ffosydd cerrig etc. (lle bo'n bosib), er mwyn lleihau'r dŵr ffo o'i gymharu â'r safle heb ei ddatblygu.



Ffig 4.11 Dylid cyfuno parcio â nodweddion plannu a systemau draenio cynaliadwy, lle bo hynny'n bosib

- 4.31 Bydd angen i led tramwyfa ceir rhwng adeiladau neu â ffin i un ochr fod yn 3.2m ei lled er mwyn gallu agor drysau ceir a dylid cynyddu'r lled hwn i 3.8m os yw'r lle parcio i'w ddefnyddio gan ddefnyddiwr cadair olwyn.

Ffyrntiadau

4.32 Efallai y bydd datblygiadau mewnlenwi mewn lleoliadau canol tref a dinas lle mae defnyddiau wedi'u cymysgu o fewn adeiladau, megis gofod masnachol ar y llawr gwaelod gyda phreswyl uwchben. Y disgwyliad yn fath sefyllfa yw y dylid creu neu wella ffryntiadau ar lefel y stryd weithredol â lefelau uchel o dryloywder gweledol yn ogystal â mynedfeydd croyw a diogel i gartrefi ar y lloriau uchaf.



Ffig. 4.12 Dylai datblygiadau defnydd cymysg gynnwys tu blaenau gweithredol a mynedfeydd diogel/clir i gartrefi ar loriau uch.

4.33 Mae'n rhaid gwneud darpariaeth ddigonol ar gyfer cyfleusterau compostio, ailgylchu a gwastraff o fewn y safle. Mewn rhai achosion efallai y bydd angen gwneud darparu mynediad diogel i'r cefn neu i ardaloedd storio

gael eu hintegreiddio'n ofalus i ffryntiad y safle. Mae'r un mater yn berthnasol i storio beiciau.

4.34 Dylai datrysiadau dylunio arloesol ar gyfer storfeydd sbwriel/ailgylchu gael eu hintegreiddio i ddyluniad y datblygiad a, phan fyddant yn weladwy o'r parth cyhoeddus, dylai fod modd eu cloi a dylent beri'r effaith leiaf posib ar y parth cyhoeddus/strydlun.

4.35 Gall cypyrddau mesuryddion plastig amharu ar ymddangosiad gweddluniau anheddau ac felly dylid eu lleoli er mwyn lleihau eu heffaith weledol niweidiol ar ffasadau. Mae hyn yn golygu lleoli'r rhain ar weddluniau ochr llai amlwg yn ogystal â'u lleoli mor agos i'r ddaear â phosib. Dylid dangos pob cwpwrdd mesuryddion yn ogystal â phetheuach allanol eraill fel fentiau ffliw, pibellau gwastraff etc. ar y lluniadau gweddlun fel rhan o'r cais.



Ffig 4.13 Dylai storfeydd sbwriel ac ailgylchu fod wedi'i integreiddio'n dda a pheidio ag amharu ar ffryntiadau a'r parth cyhoeddus.



Ymagwedd ddylunio draddodiadol

Adeilad newydd â manylder da yn y dull traddodiadol

Yn parchu cymeriad gwledig sefydledig



Dyluniad cyfoes newydd

Yn ychwanegu ansawdd a chymeriad mewn ardal o amrywiaeth

Yn cynnal y llinell adeiladu a graddfa bresennol



Arddull frodorol gyfoes

Defnydd modern o ddeunyddiau traddodiadol

Yn cynnal y llinell adeiladu a graddfa sefydledig



Fflatiau mewnlenni

Yn gwneud y defnydd gorau o dir mewn lleoliadau hygrych

Pwysig i gysylltu'r raddfa â'r cyd-destun presennol

Yn defnyddio nodweddion a deunyddiau lleol

5.0 Canllawiau ar gyfer Datblygu Tir Cefn

Egwyddorion Trosgynnol


- 5.1 Mae cyfleoedd datblygu tir cefn yn cynnwys tir y tu ôl i adeiladau sy'n bodoli eisoes, safleoedd 'wedi'u hamgylchynu' yn aml, megis gerddi cefn a mannau agored preifat, fel arfer mewn ardaloedd sy'n breswyl yn bennaf. Yn gyffredinol, nid oes gan y safleoedd hyn ffryntiadau stryd, fodd bynnag er nad yw safleoedd tir cefn yn gyffredinol yn weladwy o'r stryd, mae'n rhaid iddynt gael eu dylunio'n dda o hyd a'u graddio'n briodol i gyd-fynd â'u cyd-destun.
- 5.2 Dylai datblygiad tir cefn fod yn **fath o ddatblygiad eilaidd i** eiddo ffryntiad. Hefyd, pan fydd datblygu tir cefn eisoes yn bresennol mewn ardal, dylai cynigion gael ei cyfeirio gan hwn o ran cymarebau graddfa a llain-i-ôl-troed ac adlewyrchu'r patrwm traddodiadol o ddatblygu tir cefn. Er bod dadansoddiad trylwyr o gyd-destun datblygiadau tir cefn presennol yn yr ardal yn fan cychwyn da ar gyfer cynigion o'r math hwn, dylid nodi y bydd ceisiadau unigol yn cael eu hasesu ar sail yr amgylchiadau unigryw a gyflwynir gan bob safle.
- 5.3 Pan fydd nodweddion fel coed cadwedig (neu pan fydd coed mewn gerddi cyfagos yn bargodi dros y safle), neu pan gynigir plannu coed newydd, dylid caniatáu digon o le i goed aeddfedu heb amharu ar ofod garddio.
- 5.4 Mae'n rhaid i ddyluniad datblygiadau tir cefn fod yn seiliedig ar ddealltwriaeth glir o'r effeithiau y gall y math hwn o ddatblygiad eu cael ar gymeriad ac amwynder preswyl.
- 5.5 Y materion a all godi y mae'n rhaid eu hystyried a'u hosgoi, neu o leiaf eu hisafu i lefel dderbyniol, yw:
- Colli preifatrwydd ac ymdeimlad o ofod
 - Colli golau dydd
 - Mynediad annigonol
 - Colli gwyrddni a/neu ofod gardd sefydledig
 - Amgáu gwasanaethau cyfleustodau cyhoeddus
 - Colli lleoedd parcio
 - Rhagfarnu datblygu yn y dyfodol trwy ddatblygu darniog
 - Golygfeydd gwael allan ar 'ffryntiadau difywyd' neu lonydd cefn
 - Gostyngiad yn niogelwch y safle o ganlyniad i agor y safle i fyny.
- 5.6 Yn ogystal â'r uchod, dylai cynigion cynllun ar gyfer datblygu tir cefn hefyd wneud y defnydd gorau o fwyafu golygfa ddymunol o anheddau arfaethedig.
- 5.7 Wrth asesu cynigion ar gyfer datblygiadau tir cefn, bydd y Cyngor yn rhoi sylw arbennig i'r paragraffau canlynol (5.8 - 5.31).

Ymgorffori Nodweddion Presennol

- 5.8 Os yw safle tir cefn yn cynnwys nodwedd neu nodweddion o arwyddocâd, mae'n rhaid ystyried sut mae'r datblygiad arfaethedig yn cysylltu â hyn. Er enghraifft, dylid rhoi digon o le i goeden gadwedig neu blannu sefydledig pwysig arall dyfu heb effeithio ar amwynder manau amwynder arfaethedig. Dylai llwybr troed neu linell ddymuniad gael ei integreiddio'n dda ac ar yr un pryd cynnal aliniad uniongyrchol, diogel a deniadol yn weledol.

Uchder, Graddfa a Masio

- 5.9 Dylai datblygiadau tir cefn fod yn eilaidd o ran graddfa a maint mewn perthynas ag eiddo â ffyrntiad. Mae hyn er mwyn osgoi gorddatblygu'r safle a sicrhau nad oes unrhyw effeithiau gormesol ar eiddo cyfagos. Dylid ystyried lefel y tir hefyd gan fod datblygiadau ar dir uwch yn debygol o gael mwy o effaith ar eiddo cyfagos. Ni chaniateir anheddau ar raddfa fawr mewn lleoliadau tir cefn.



Ffig 5.1 Dylai datblygiad tir cefn fod yn llai o ran maint mewn perthynas â thu blaen yr eiddo

Cymeriad ac Ymddangosiad

- 5.10 Nid yw'r Canllaw hwn yn ceisio pennu arddull bensaernïol benodol yn fypwyl. Dylai'r man cychwyn fod yn arfarniad o gyd-destun y safle. Yn gyffredinol dylai dyluniad cynlluniau gael ei lywio gan adeiladau uniongyrchol gyfagos a chymeriad yr ardal ehangach. Dylai datblygu newydd adlewyrchu elfennau cadarnhaol cymeriad lleol.
- 5.11 Os yw'r safle mewn ardal gadwraeth, efallai y bydd disgrifiad cyhoeddedig sy'n nodi'r diddordeb pensaernïol arbennig a dylai'r arfarniad cymeriad fod yn fan cychwyn. Ar gyfer cynlluniau yng Ngŵyr, mae Canllaw Dylunio AoHNE Gŵyr a fabwysiadwyd yn nodi prif elfennau 'Arddull Frodorol Gŵyr'.
- 5.12 Bydd symud tuag at ffyrdd o fyw sy'n defnyddio llai o ynni yn newid y ffordd y mae prosiectau trawsnewid a chartrefi newydd yn edrych; dyma gyfle i ddylunio'n gyfoes mewn lleoliadau cymdogaeth gan ddefnyddio deunyddiau modern a phensaerniaeth flaengar.
- 5.13 Efallai y bydd sefyllfaoedd lle nad oes cymeriad cadarnhaol ar hyn o bryd a all gael ei adlewyrchu yn y safle. Nid cyfiawnhad dros ddylunio dinod mo hwn. Yn hytrach, mae hyn yn gyfle i godi'r bar dylunio, o bosib gan sefydlu cymeriad cyfoes newydd drwy ail-ddehongli ffurfiau a deunyddiau.

Deunyddiau a Manylion


5.14 Yn ôl ei natur, dylai datblygu tir cefn fod allan o olwg amlwg i raddau helaeth a heb ddominyddu ffyrntiad yr eiddo, ond dylai fod golygfeydd rhannol o hyd er croywder. Nid yw natur datblygu tir cefn yn esgus dros ddylunio gwael, na defnydd israddol o ddeunyddiau a manylder.

5.15 Dylid dewis deunyddiau i adlewyrchu'r agweddau gorau ar gymeriad lleol ac ar yr un pryd ymdrin â chadernid, addasrwydd i'r diben a hindreuddu. Dylid cyfiawnhau dewisiadau'n llawn mewn DDM.

Triniaethau Ffiniau

5.16 Dylid cynnwys triniaethau ffiniau yn yr arfarniad o gymeriad. Yn aml, mae safleoedd tir cefn yn cael eu ffinio gan ffiniau segur o ansawdd gwael ag arddulliau gwahanol (h.y. ffensys/waliau). Mewn rhai achosion mae'n bosib y bydd angen uwchraddio ffiniau, er enghraifft gellir defnyddio plannu naill ai i gryfhau neu guddio ffiniau, yn ogystal â darparu gwelliannau bioamrywiaeth a seilwaith gwyrdd.

5.17 Mae'n rhaid ystyried diogelwch y ffiniau hefyd gan y gallai datblygu tir cefn agor gerddi cefn i fyny i droseddu. Felly mae'n bosib y bydd angen gwneud ffiniau'n fwy diogel neu ddylai cynigion datblygu gynyddu gwyliadwriaeth naturiol y safle. Mewn rhai amgylchiadau bydd datblygiadau sy'n wynebu'r tu allan yn fwyaf addas, yn enwedig mewn tirweddau mwy gwledig.



Ffig 5.2 Gall plannu fod yn ffordd o gryfhau neu guddio ffiniau a darparu bioamrywiaeth ac isadeiledd gwyrdd

5.18 Mae ffiniau blaen yn ddymunol yn y rhan fwyaf o ardaloedd preswyl gan fod y rhain yn helpu i ddarparu bwtres glir rhwng y parthau cyhoeddus a phreifat. Mae hyn yn helpu i atgyfnerthu ymdeimlad o berchnogaeth dros ofod sy'n lleihau cyfleoedd i droseddu. Ni fydd ffensys byrddau agos fel triniaeth unigol yn dderbyniol ar gyfer ffiniau yn y parth cyhoeddus.

Mynediad a Pharcio

5.19 Dylai mynediad presennol a newydd ddilyn egwyddorion dylunio cynhwysol fel a ddisgrifir yn y 'Llawlyfr Strydoedd'. Bydd datblygiadau o fwy na 5 cartref yn gofyn am fynediad a ddylunnir yn unol â safonau y gellir eu mabwysiadu. Gellir cyflwyno datblygiadau o 5 cartref neu lai oddi ar drefniant tramwyfa breifat.


5.20 Bydd angen i gynigion datblygu tir cefn sicrhau bod mynediad priodol yn cael ei ddarparu ar gyfer lefel y drafnidiaeth a gynhyrchir yn unol â gofynion y 'Llawlyfr Strydoedd' a Llawlyfr Priffyrdd perthnasol y Cyngor. Os yw mynediad presennol i gerbydau i'w ddefnyddio yna nid yw o reidrwydd yn golygu y gellir dwysáu'r mynediad hwn o ran y nifer yr unedau a wasanaethir heb

welliannau. Efallai y bydd achosion hefyd pan na fyddai mwy o ddatblygiad yn cael ei gefnogi beth bynnag.

- 5.21 Wrth ystyried gwaith mynediad mae'n bwysig nodi'r cyfyngiadau uchder o 1m ar unrhyw driniaethau ffin o fewn yr ardal llain welededd ar gyfer y fynedfa hon. Dylai datblygiadau tir cefn wneud darpariaeth i gar teulu fedru troi ar y safle. Pan gynigir mwy nag un annedd yna dylid cyflwyno dadansoddiad llwybr eang sy'n rhoi manylion cyfleuster troi priodol ar gyfer cerbydau sbwriel/argyfwng.
- 5.22 Dylid gorffen manau parcio a mynediad mewn arwynebau athraidd a, phan fo'n bosib, eu cyfuno â nodweddion SUDs eraill fel gerddi glaw a ffosydd cerrig etc, er mwyn isafu dŵr ffo o'i gymharu â'r safle heb ei ddatblygu.
- 5.23 Er bod datblygiad tir cefn fel arfer wedi'i leoli i ffwrdd o'r strydlun, bydd yn bwysig ystyried pwynt cyrraedd croyw a chyfleus i ymwelwyr, cludiadau etc. Fel y cyfryw, ni ddylai parcio gael effaith ormodol neu negyddol ar y manau hyn. Gall ardal fwtres/gardd flaen briodol hefyd ddarparu lle ar gyfer gwella bioamrywiaeth ac o bosib defnydd amwynder.
- 5.24 Mae'r aflonyddwch posib ar breswylwyr presennol ac yn y dyfodol a achosir gan y defnydd o fynedfa newydd i'r cefn a man parcio/troi cysylltiedig yn ystyriaeth faterol wrth benderfynu ar geisiadau cynllunio ar gyfer datblygiadau tir cefn.

Datblygu Tandem


- 5.25 Mae datblygu tandem yn sefyllfa pan fydd tŷ newydd yn cael ei osod yn uniongyrchol y tu ôl i un sy'n bodoli eisoes, gyda'r ddau eiddo yn rhannu'r un fynedfa neu dramwyfa gerbydau. Bydd cynigion o'r math hwn yn aml yn annerbyniol oherwydd anawsterau mynediad, aflonyddwch a diffyg preifatrwydd.



Ffig 5.3 Mae datblygiad tandem yn aml yn annerbyniol oherwydd problemau gyda mynediad, aflonyddwch a diffyg preifatrwydd

Datblygu Cynhwysfawr

- 5.26 Weithiau mae'n bosib cydosod digon o dir o nifer o gerddi cefn cyfagos i alluogi grŵp bach o dai i gael eu datblygu mewn modd gwell. Gall datblygu pob llain ar wahân achosi problemau deilliannol a allai olygu na ellir datblygu rhai ardaloedd yn llawn. O'r herwydd, dylid annog datblygiad cyfannol lleiniau cyfagos.
- 5.27 Wrth ystyried cynigion datblygu ar raddfa fwy, mae'n bwysig nodi y gall ffyrdd preifat/ tramwyfeydd a rennir wasanaethu hyd at uchafswm o 5 annedd yr un. Yn ogystal â hyn, mae'n rhaid darparu mynediad hefyd i 2 gar fynd heibio i'w gilydd yn ddiogel.



Ffig 5.4 Gall datblygiad cynhwysfawr fod yn fanteisiol ac anogir yr ymagwedd gyfannol hon

Atodiad A: Safonau o ran Gofod

Number of bedrooms(b)	Number of bed spaces (persons)	1 storey dwellings	2 storey dwellings	3 storey dwellings	Built-in storage
1b	1p	39 (37) *			1.0
	2p	50	58		1.5
2b	3p	61	70		2.0
	4p	70	79		
3b	4p	74	84	90	2.5
	5p	86	93	99	
	6p	95	102	108	
4b	5p	90	97	103	3.0
	6p	99	106	112	
	7p	108	115	121	
	8p	117	124	130	
5b	6p	103	110	116	3.5
	7p	112	119	125	
	8p	121	128	134	
6b	7p	116	123	129	4.0
	8p	125	132	138	

Ffig A.A Safon Gofod a Ddisgrifir yn Genedlaethol (NDSS 2015) ar gyfer ardaloedd llawr mewnol gros a storfeydd (m2)

Home Designation	Home Type	Gross Internal (floor) Area (GIA) m2	General Storage m2 (included in GIA)
7P4B	2 Storey House	114	3
6P4B	2 Storey House	110	3
5P3B	2 Storey House	93	2.5
4P3B	2 Storey House	88	2.5
4P2B	2 Storey House	83	2.5
3P2B	2 Storey House	74	2
3P2B	Bungalow	58	2
3P2B	Flat – Walk up	65	2
3P2B	Flat – Common access	58	2
2P1B	Flat – Walk up	53	1.5
2P1B	Flat – Common access	50	1.5

Ffig A.B Gofynion Ansawdd Datblygu Cymru 2021 (WDQR 2021)

Atodiad B: Enillion a Gwelliannau Bioamrywiaeth

Mae'r wybodaeth a ganlyn yn ehangu ar y deunydd trosolwg a geir yn Adran 3.0 y Canllaw.

Mae materion sy'n ymwneud â Bioamrywiaeth yn ystyriaethau allweddol ar gyfer pob datblygiad a dylai cynigion geisio isafu'r effeithiau ar fioamrywiaeth, cynefinoedd a rhwydweithiau seilwaith gwyrdd sy'n bodoli eisoes, yn ogystal â chyflwyno mesurau i sicrhau buddiant net i fioamrywiaeth yn unol â dyletswyddau Adran 6.

Mae'r atodiad hwn yn ymhelaethu ar yr ystyriaethau bioamrywiaeth ar gyfer datblygu mewnlenwi a thir cefn. Mae mwy o wybodaeth wedi'i chynnwys yn y CCA Bioamrywiaeth.

Safleoedd Ecolegol Arbennig

Dylech wirio a yw eich datblygiad arfaethedig o fewn neu'n agos at safle sydd wedi'i ddynodi fel un o bwysigrwydd ecolegol. Cyfeiriwch at Fap Cyfyngiadau a Materion CDLI Abertawe (www.abertawe.gov.uk/cca) ar gyfer lleoliad safleoedd a ddynodir yn genedlaethol a dynodiadau lleol fel SINC. Efallai y bydd angen rhagor o wybodaeth am yr arolwg os yw'r datblygiad arfaethedig yn debygol o effeithio ar safle dynodedig (gweler Polisi ER 8).

Rhywogaethau a Warchodir

Os ydych eisoes yn ymwybodol bod rhywogaethau a warchodir yn bresennol ar eich safle neu'n agos ato, dylech gynnwys yr holl wybodaeth sydd ar gael fel rhan o'ch cyflwyniad cyn ymgeisio. Fel rhan o'r broses hon bydd tîm ecoleg y cyngor yn rhoi sylwadau ar ba arolygon sydd eu

hangen ac unrhyw fesurau digolledu neu wella ecolegol. Noder efallai na fydd presenoldeb rhywogaethau a warchodir yn gyfyngedig i'ch safle yn unig ac felly bydd angen i'r Cyngor ystyried presenoldeb ehangach rhywogaethau a warchodir fel ystlumod ac adar sy'n nythu.

Os oes angen arolwg, mae'n rhaid iddo fod yn ddiweddar ac wedi'i gyflawni gan ecolegydd sydd â chymwysterau addas.

Dylai'r wybodaeth ofynnol gynnwys yr arolygon angenrheidiol, asesiad o effaith, datganiadau dull a strategaethau lliniaru/gwella. Bydd angen cynnwys yr wybodaeth hon fel rhan o'ch cais cynllunio. Ystyrir bod yr holl Arolygon Ecolegol a gyflwynir i gefnogi ceisiadau cynllunio yn ddilys am gyfnod o 2 flynedd, ac ar ôl hynny, bydd angen arolygon wedi'u diweddarau. Mae angen i chi gadw hyn mewn cof wrth ystyried pryd i geisio cyngor cyn-ymgeisio a phryd mae cais yn debygol o gael ei gyflwyno.

Noder bod **arolygon Ecolegol yn dymhorol, felly mae'n rhaid cynnal yr arolwg gofynnol mewn mis priodol o'r flwyddyn**, ac adeg briodol o'r dydd. Dylai gwybodaeth yr arolwg gynnwys chwiliad data o Ganolfan Cofnodion Biolegol De-ddwyrain Cymru (SEWBRc), a defnyddio canllawiau/dulliau arolwg a gydnabyddir yn genedlaethol pan fyddant ar gael.

Mae nifer o rywogaethau adar ac anifeiliaid wedi'u diogelu o dan wahanol ddeddfau Amgylcheddol ac felly mae'n drosedd ymgymryd â gwaith a fyddai'n peri aflonyddwch i'r rhain heb weithredu mesurau lliniaru priodol.

Bydd presenoldeb (neu bresenoldeb posib) rhywogaethau a warchodir yn gofyn am gydymffurfio â'r holl rwymedigaethau a

chyfrifoldebau statudol perthnasol, a gallant olygu dod o hyd i drwydded gan Gyfoeth Naturiol Cymru er mwyn osgoi cyflawni trossedd. Mae adran atodiad y CCA Bioamrywiaeth hefyd yn nodi rhestr wirio o'r mathau o arolygon rhywogaethau y bydd eu hangen ar gyfer gwahanol fathau o ddatblygiadau a ffactorau perthnasol eraill.

Mae'r canlynol yn rhestr o'r mathau mwyaf cyffredin o rywogaethau sy'n debygol o gael eu heffeithio gan waith datblygu mewnlenni a/neu dir cefn. Noder nad rhestr hollgynhwysol mo hon ac i ddarganfod effaith bosib y cynnig neu i bennu a fyddai angen trwydded, dylech ofyn am gyngor cyn-ymgeisio neu gyngor ecolegydd sydd â chymwysterau addas.

Ystlumod

Mae'n rhaid darparu gwybodaeth arolwg ar gyfer ystlumod ymlaen llaw bob amser fel rhan o gais cynllunio. Ni ellir penderfynu ar gais cynllunio a allai gael effaith ar ystlumod nes bod yr wybodaeth angenrheidiol wedi'i darparu.

Mae'n rhaid i'r arolwg, adroddiad yr arolwg a chynigion lliniaru/digolledu/gwella gael eu cyflawni a'u paratoi bob amser gan syrfëwr ystlumod trwyddedig (cyflenwir trwyddedau arolwg ystlumod yng Nghymru gan CNC). **Y tymor ar gyfer arolygon ystlumod yw o 1 Mai tan 30 Medi** (gyda rhai arolygon cyfyngedig yn bosib ym misoedd Ebrill a mis Hydref).

Os dengys yr arolwg a gyflwynir fod ystlumod yn debygol o gael eu heffeithio gan eich datblygiad, bydd angen darparu cynigion lliniaru, digolledu a gwella. Bydd y cynigion hyn yn dibynnu ar ganlyniadau'r arolwg ystlumod. Gallant gynnwys: cynnwys clwyd ystlumod yn yr adeilad, codi blychau ystlumod neu blannu coed/perthi. Mae'n rhaid i gynigion lliniaru, digolledu a gwella hefyd ystyried ffactorau fel goleuo ac agosrwydd cynefin addas.

Ceir rhagor o wybodaeth am ofynion a phroses eang arolygon ystlumod yn y ddogfen CIEEM o'r enw "What to Expect from a Bat Survey: A Guide for UK Homeowners" sydd ar gael yn: <https://cieem.net/resource/what-to-expect-from-a-bat-survey-a-guide-for-uk-homeowners/>

Tylluanod Ysgubor

Mae'r diogeliad ar gyfer tylluanod ysgubor yn cynnwys yr holl adar, eu nythod a'u hwyau. Mae'r diogeliad arbennig a roddir iddynt yn ei gwneud yn drosedd i darfu ar adar yn y nyth. Cyn i unrhyw waith ddechrau, mae'n bosib y bydd yn ofynnol i arolwg gael ei gyflawni gan ecolegydd sydd â chymwysterau addas.



Os deuir o hyd i dylluanod ysgubor, bydd angen cynigion lliniaru/digolledu a gwella, a allai gynnwys darparu blychau nythu yn/ar/ger yr adeilad neu'r adeiledd. Mae'n rhaid i gynigion sy'n effeithio ar dylluanod ysgubor hefyd ystyried ffactorau fel goleuo ac agosrwydd cynefin addas.

Mae rhagor o wybodaeth am arolygon Tylluanod Ysgubor lleol, gweithdrefnau chwilio, ffyrdd i'ch helpu i adnabod tystiolaeth o ddeiliadaeth yn ogystal â rhywfaint o gefndir ar Dylluanod Ysgubor a'r gyfraith ar gael yn y daflen "Barn Owl Trust: Survey Techniques ar y wefan CIEEM:

<https://cieem.net/resource/barn-owl-trust-survey-techniques/>

Adar sy'n Nythu

Mae'r diogeliad ar gyfer adar sy'n nythu yn diogelu pob aderyn gwyllt rhag cael ei ladd, ei anafu neu ei gymryd. Mae'r diogeliad hwn hefyd yn ymestyn i wyau, adar ifainc a nythod adar (tra'u bod yn cael eu defnyddio).



Mae rhywogaethau adar fel gwennol y bondo, adar y to, gwenoliaid a gwenoliaid duon i gyd yn defnyddio adeiladau i nythu ynddynt/arnynt. Mae ardaloedd o lystyfiant trwchus (e.e. perthi a phrysgwydd) hefyd yn bwysig ar gyfer adar sy'n nythu.

Dylai gwaith a allai effeithio ar adar sy'n nythu osgoi'r tymor bridio adar, yr ystyrir yn gyffredinol ei fod rhwng 1 Mawrth a 31 Awst. Fodd bynnag, gall hyn ddechrau'n gynharach a gorffen yn ddiweddarach gan ddiwynnu ar rywogaeth yr adar. Efallai y bydd angen gwiriadau cyn gwaith ar gyfer nythod actif hefyd.

Ceir gwybodaeth ychwanegol am drwyddedu adar yn ogystal â dolenni i restr o rywogaethau a warchodir Atodlen 1 a gwybodaeth arall yn:

<https://naturalresources.wales/permits-and->

[licensing/species-licensing/uk-protected-species-licensing/bird-licensing/?lang=cy](https://naturalresources.wales/permits-and-licensing/species-licensing/uk-protected-species-licensing/bird-licensing/?lang=cy)

Draenogod

Mae'r diogeliadau lluosog ar gyfer draenogod yn ei gwneud yn anghyfreithlon i ladd, dal neu drin draenogod gwyllt yn greulon. Rhestrir draenogod fel rhywogaeth o 'bwysigrwydd pennaf' at ddiben cynnal a gwella bioamrywiaeth yng Nghymru.

Mae dewis ac athreiddedd triniaethau ffiniau arfaethedig yn arbennig o bwysig ar gyfer lliniaru effeithiau niweidiol ar ddraenogod ac felly argymhellir defnyddio ffiniau meddalach, naturiol (e.e. perthi). Pan fwriedir defnyddio ffiniau caled fel waliau a ffensys, dylai'r rhain naill ai beidio â bod yn sownd wrth y ddaear neu ddylent gynnwys bylchau neu dyllau o leiaf 13 x 13 cm ar bwyntiau strategol yn eu sylfaen i alluogi draenogod (a rhywogaethau mudol/porthi eraill) fynd drwy'r rhain. I gael rhagor o wybodaeth am ffensys sy'n llesol i ddraenogod, ewch i:

<https://www.hedgehogstreet.org/hedgehog-friendly-fencing/>

Mae nodweddion eraill sy'n llesol i ddraenogod y gellir eu hymgorffori mewn gerddi yn cynnwys elfennau lled-barhaol a thros dro fel pentyrrau boncyffion, tomenni compost, pentyrrau dail, lleiniau wedi'u gordyfu, lleiniau blodau gwyllt a phyllau. Ceir rhagor o wybodaeth am y rhain yn ogystal â chanllaw ar sut i adeiladu cartref draenogod yn:

<https://www.hedgehogstreet.org/help-hedgehogs/helpful-garden-features/>

Mesurau Gwella Bioamrywiaeth

Dylai cynigion datblygu mewnlenni a/neu dir cefn ddarparu cyfleoedd newydd i fywyd gwyllt, a gallant gynnwys y nodweddion a ganlyn. Fe'ch anogir i ystyried integreiddio'r canlynol yn eich cynigion beth bynnag er mwyn gwella bioamrywiaeth a chynefinoedd lleol ar gyfer rhywogaethau lleol yn gyffredinol:

- Ymgorffori toeon gwyrdd a waliau gwyrdd yn yr adeiladwaith;
- Darparu blychau nythu adar ar gyfer amrywiaeth o rywogaethau a nodweddion clwydo ystlumod o fewn y toeon, blychau ystlumod yn allanol neu ar goed aeddfed addas o fewn y tiroedd, a phorthwyr adar a baddonau adar;
- Gosod blwch tylluanod ysgubor;
- Tirlunio'r ardd i gynnwys perthi brodorol, coed ac ardaloedd blodau gwyllt. Mae'n hanfodol defnyddio rhywogaethau brodorol o darddiad lleol (neu o leiaf Gymreig) a rhywogaethau o fudd hysbys i fywyd gwyllt a phryfed peillio mewn unrhyw gynllun tirlunio meddal sy'n gysylltiedig â'r datblygiad, ynghyd â defnyddio cymysgeddau hadau amrywiol ar gyfer lawntiau/gerddi.
- Creu pwll neu ardd gors;
- Creu pentwr boncyffion neu bentwr cerrig;
- Darparu 'gwesty' gwenyn a/neu'r infertebratau yn eich gardd;
- Isafu'r defnydd o ffensys byrddau agos neu nodweddion ffiniau caled eraill sy'n lleihau athreiddedd/ cysylltedd ar gyfer bioamrywiaeth.

A phan ddefnyddir y fath driniaethau;

- Gwneud tyllau bach (isafswm 13 x 13cm) mewn unrhyw ffensys ffiniol i alluogi i ddraenogod a rhywogaethau mudol eraill allu mynd trwyddynt yn rhydd a gwella cysylltedd i ardaloedd/gerddi cyfagos sy'n cynnal llinellau coed presennol a chadw perthi;
- Cynnal a chadw llinellau coed sy'n bodoli eisoes a chadw perthi.

Rhywogaethau Estron Goresgynnol (RhEG) e.e. Canclwm

Japan

Pan fo rhywogaeth anfrodorol goresgynnol o fflora a restrir yn Atodlen 9 Rhan II adran 14(2) Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 (fel y'i diwygiwyd) yn bresennol ar safle cais cynllunio, gosodir amod rhywogaethau estron goresgynnol (fflora) ar y cais hwnnw.

Fel arfer, mae amodau o'r fath ynghlwm wrth geisiadau cynllunio i ddelio â Chanclwm Japan, ond gellir atodi'r rhain hefyd i ddelio â phresenoldeb RhEG llai cyffredin eraill os ydynt yn bresennol.

Er mwyn cyflawni'r amod, mae'n rhaid i chi ddarparu a gweithredu datganiad dull priodol ar gyfer rheoli'r planhigyn cyn, yn ystod ac ar ôl y gwaith datblygu. Gall Canclwm Japan yn benodol fod yn anodd iawn i'w ddileu ac ar ben hynny mae'n cael ei ystyried yn 'wastraff rheoledig' o dan Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990, sy'n ei gwneud yn ofynnol i hyn gael ei waredu gyda chlodwyr gwastraff cofrestredig megis contractwyr Canclwm Japan arbenigol. Os yw Canclwm Japan yn bresennol ar eich eiddo, fe'ch anogir felly i gyflogi arbenigwr canclwm cofrestredig.

I gael rhagor o wybodaeth am drin ac adnabod Canclwm Japan:

<https://www.gov.uk/guidance/prevent-japanese-knotweed-from-spreading> a <https://www.rhs.org.uk/advice/profile?pid=218>

Atodiad C: Seilwaith Gwyrdd (SG)

Mae amgylchedd naturiol Abertawe a'i rhwydwaith Seilwaith Gwyrdd (SG) strategol yn darparu gwasanaethau ecosystem hanfodol y mae'n ddyletswydd statudol ar y cyngor i'w cynnal a'u gwella. Dylai byw gyda natur fod yn thema allweddol yr holl ddatblygiadau newydd trwy ymagwedd a arweinir gan seilwaith gwyrdd at greu lleoedd.

Mae Polisi Cynllunio Cymru yn pwysleisio pwysigrwydd integreiddio Seilwaith Gwyrdd (SG) ar bob graddfa (6.2.1) a gellir mynd i'r afael â hyn mewn ffordd gadarnhaol mewn dull hierarchaidd fel y dangosir gyferbyn. Dylai'r nodweddion hyn fod yn rhan o'r dull cyffredinol o greu lleoedd a arweinir gan ddylunio.

Mae'n bosib bod angen Strategaeth Seilwaith Gwyrdd ar gyfer datblygiadau mewnlenwi a thir cefn. Bydd y manylder angenrheidiol yn gymesur â graddfa'r cais. Gallai cyflwyniad syml ar fap, gyda datganiad ysgrifenedig byr, fod yn ddigon ar gyfer datblygiadau llai eu maint, ac yn achos datblygiadau mwy cymhleth sydd â tîm dylunio mwy gydag ystod ehangach o ddogfennau technegol cefnogol gallai fod angen cyflwyniad mwy cynhwysfawr i gyfathrebu'r cyfiawnhad dros y datrysiadau dylunio a gynigir.

- **Graddfa'r Dirwedd** – mae hyn yn cynnwys cynefinoedd argadwedig a nodweddion tirlun ynghyd ag ymylon heb eu datblygu, a chynnal a gwella coridorau cysylltedd cynefinoedd strategol
 - **Graddfa'r Gymdogaeth** – mae hyn yn cynnwys coridorau gwyrdd o fewn safleoedd parciau newydd, ardaloedd bywyd gwylt, rhandiroedd, cyfleoedd
 - **Graddfa leol** – mae hyn yn cynnwys coed stryd, perthi, ymylon wedi'u plannu a choridorau draenio trefol cynaliadwy, dolydd blodau gwylt
- Graddfa'r Iain** – mae hyn yn cynnwys ffiniau perthi, gerddi glaw, plannu bioamrywiol, waliau a thoeon gwyrdd

Atodiad Ch: Systemau Draenio Cynaliadwy (SUDs)

O dan ddeddfwriaeth yng Nghymru, mae pob datblygiad newydd o fwy nag 1 annedd neu lle mae'r ardal adeiladu yn 100 metr sgwâr neu fwy, yn gofyn am systemau draenio cynaliadwy (SUDs) ar gyfer dŵr wyneb. Mae'n rhaid i SUDs gael eu dylunio a'u hadeiladu yn unol â Safonau SUDs Statudol a'u cymeradwyo gan yr Awdurdod Lleol yn rhinwedd ei rôl fel Corff Cymeradwyo SUDs, cyn i'r gwaith adeiladu ddechrau. Bydd yn ofynnol i bob datblygiad mewnlenni a thir cefn ymgorffori systemau SUDs. Fel arfer, mae'r rhain yn dod o dan dri chategori:

- Rheoli Ffynhonnell
- Systemau Trawsgludiad Athraid
- Triniaeth Oddefol (Llygredd)

Rheoli Ffynhonnell

Dylunnir technegau rheoli ac atal ffynhonnell i isafu'r dŵr ffo a'r gollyngiadau dŵr wyneb cynyddol o safleoedd datblygedig sydd â mwy o arwynebau caled (yn hytrach na mannau naturiol), trwy ei storio mor agos at y ffynhonnell â phosib a'i ryddhau'n arafach er mwyn lleihau faint o ddŵr a ryddheir o'r safle (yn ychwanegol, o bosib, at drin hyn wrth iddo gael ei ryddhau). Mae nodweddion o'r fath i'w hystyried yn eich cynigion datblygu yn cynnwys:

- Toeon Gwyrdd
- Ffesydd Ymdreiddio
- Arwynebau Athraidd (e.e. palmentydd mandyllog)
- Casglu Dŵr Glaw (casgenni dŵr a systemau dŵr llwyd)
- Gerddi Glaw
- Ffesydd Cerrig

Toeon Gwyrdd

Mae dau fath o do gwyrdd: dwys a helaeth. Mae toeon gwyrdd dwys yn drwchus gydag isafswm dyfnder o 12.8cm a gallant gefnogi amrywiaeth ehangach o blanhigion ar gyfer bioamrywiaeth yn ogystal â gwell swyddogaethau draenio. Fodd bynnag, maent yn drymach ac mae angen mwy o waith cynnal a chadw arnynt. Mae toeon gwyrdd helaeth yn fwy bas (2—12.7cm) ac mae angen llai o waith cynnal a chadw arnynt ond maent yn llai amrywiol o ran rhywogaethau ac yn cyflawni swyddogaethau draenio llai.



Gellir cymhwyso toeon gwyrdd i nifer o adeileddau ar oleddf gwastad neu gul - estyniadau, siediau, storfeydd a garejys neu fannau parcio ceir

Walïau Gwyrdd

Ceir dau fath o wal gwyrdd: systemau cynlluniedig gyda chynhaliad ar gyfer cyfrwng tyfu ar draws ffasâd gyda system ddyfrio neu wifrau cynnal tyfiant ar gyfer planhigion dringo wedi'u plannu yn y ddaear wrth fôn y wal. Gall y ddau fath fod yn llwyddiannus wrth reoli ffynonellau draenio yn ogystal ag isadeiledd gwyrdd ac amlymarferoldeb megis bioamrywiaeth, oeri trefol a lles.

Ffogydd Ymdreiddio

Gwaith cloddio bas yw ffogydd ymdreiddio wedi'u llenwi â rwbél neu garreg sy'n creu storffeydd glaw a dŵr ffo o stormydd dros dro o dan y ddaear, gan wella gallu naturiol y ddaear i storio a draenio dŵr. I ddechrau, mae ffogydd ymdreiddio'n dal y dŵr wrth iddynt lenwi ac yna'n caniatáu iddo ddraenio i'r pridd cyfagos o waelod ac ochrau'r ffos yn arafach. Yn ddelfrydol, dylai'r rhain dderbyn croes-lifau dŵr ffo o arwynebau cyfagos.

Arwynebau Athraidd

Mae defnyddio arwynebau caled anhydraid fel tarmac, concrit a mathau penodol o balmentydd yn atal dŵr glaw rhag treiddio i'r ddaear, gan achosi dŵr i gronni mewn rhannau isel yn ogystal â rhedeg ar hyd yr wyneb i ardaloedd eraill, gan arwain o bosib at lifogydd lleol. Mae opsiynau palmantu athraidd yn darparu bylchau yn yr arwyneb er mwyn caniatáu i lefelau amrywiol o ddŵr daear dreiddio er mwyn osgoi'r broblem hon. Gall opsiynau ar gyfer arwyneb athraidd gynnwys graean rhydd ac agregau bach eraill nad ydynt yn rhwymedig (ar yr amod nad yw'r rhain yn debygol o olchi ar y briffordd gyhoeddus), palmentydd bloc athraidd, palmentydd

mandyllog a phalmentydd glaswellt wedi'i atgyfnerthu etc. Cefnogir opsiynau palmentydd glaswellt athraidd yn benodol mewn lleoliadau priodol gan y gall y rhain gyfrannu at fioamrywiaeth a chysylltedd seilwaith gwyrdd yn ogystal â meddalau ardaloedd ag arwyneb caled yn weledol a darparu swyddogaeth ddraenio.

Casglu Dŵr Glaw

Mae casglu dŵr glaw yn cywain ac yn dal dŵr glaw mewn storffeydd at ddibenion eraill. Dull syml o wneud hyn yw cysylltu casgen ddŵr â phibell law i storio dŵr at ddefnydd yr ardd. Gall systemau dŵr llwyd eraill gynnwys cyflenwi dŵr glaw ar gyfer tynnu dŵr y toiled yn eich estyniad.

Gerddi Glaw

Mae'r rhain fel arfer yn ffogydd bas wedi'u llenwi â phridd amsugol, sy'n draenio'n rhydd a phlanhigion priodol a ll wrthsefyll llifogydd dros dro. Mae ffurf arall yn defnyddio blwch plannu i weithredu fel tanc storio eilaidd gyda draeniad rheoledig. Yn ychwanegol at helpu i ddraenio dŵr o'r wyneb i'r pridd, mae'r nodweddion hyn hefyd yn darparu swyddogaeth hidlo sy'n cyflenwi dŵr glanach yn ôl i'r system ddŵr. Am fwy o wybodaeth:

<http://raingardens.info/>



Gall gerddi glaw fod ar lefel arwyneb a chynnwys casgenni dŵr (brig) neu eu darparu fel blychau plannu (gwaelod)

Mae ffos gerrig yn nodwedd ddraenio gladdedig sy'n hidlo dŵr wyneb i'r ddaear, yn hytrach na'i ryddhau i leoliad oddi ar y safle fel cwrs dŵr neu garthffos. Mae ffosydd cerrig yn gofyn am gloddio twll addas sydd fel arfer yn cael ei ddisodli gan adeiledd ffurfiol, a adeilidir gan ddefnyddio cylch concriid, system leinin ffabrig neu system cewyll plastig.

Mae'r twll storio fel arfer wedi'i lenwi â charreg a rwbel, sy'n caniatáu i'r dŵr dreiddio a thynnu llygryddion cyn cael eu hidlo i'r pridd mewn modd rheoledig. Gellir defnyddio cewyll geogellog hefyd, sy'n darparu mwy o storfa, ond llai o allu i hidlo dŵr wyneb ffo. Mae angen amodau penodol er mwyn i ffosydd cerrig weithio ac felly fe'ch cynghorir i geisio rhagor o wybodaeth cyn gosod unrhyw nodwedd o'r fath.

Systemau Trawsgludiad Athraidd

Mae systemau trawsgludiad athraidd yn symud (trawsgludo) dŵr yn araf tuag at gwrs dŵr (fel afon) sy'n caniatáu storio, hidlo a cholli dŵr ffo i ryw raddau drwy anweddiad ac ymdreiddiad cyn iddo gyrraedd y pwynt arllwys. Y prif fathau o systemau trawsgludiad athraidd yw pantiau dŵr wyneb a systemau tanddaearol fel ffosydd hidlo (neu ffosydd Ffrengig).

Pantiau

Mae angen maint cymharol fawr o le ar gyfer pantiau a deuir o hyd iddynt fel arfer ar strydoedd. Yn y termau symlaf mae'r rhain yn ffosydd bas gydag ochrau ag ychydig o oleddf sy'n rhedeg ar hyd neu yng nghanol strydoedd. Mae pantiau wedi'u dylunio i storio a chyfleu dŵr ffo yn ogystal â chael gwared ar lygryddion yn y broses. Gall pantiau fod yn laswelltog ond maent yn fwy effeithiol os cânt eu plannu gyda

llystyfiant priodol gan gynnwys coed mewn lleoliadau priodol.




Mae pantiau glaswellt syml yn cludo dŵr yn ystod tywydd gwlyb (ar y chwith) a gall pantiau ar stryd sydd â llystyfiant (ar y dde) wella bioamrywiaeth a chymeriad y stryd

Ffosydd Hidlo / Ffrengig

Gall ffosydd hidlo/Ffrengig fod ar sawl ffurf ond un o'r dulliau symlaf ar gyfer y rhain yw creu ffos ymdreiddio wedi'i llenwi â graean sydd hefyd yn cynnwys pibell â slotiau neu dyllau ynddi. Defnyddir y draeniau hyn yn bennaf i gyfeirio dŵr daear neu ddŵr wyneb i ffwrdd o ardal benodol, fel sylfaen neu islwr eich cartref. Bydd y dŵr ar lefel y wyneb yn cael ei gyfeirio tuag at y pwynt isaf, ac yna'n cael llifo drwy'r graean i'r draen. Mae'r graean hefyd yn gwneud y gwaith o rwystro malurion gormodol rhag mynd i mewn i'r draen. Yna cesglir y dŵr yn y pibell wedi'i slotio yn y gwaelod, ac fe'i gyfeirir i ffwrdd o'ch cartref, tuag at leoliad mwy addas ar gyfer ymdreiddio.

Mae ffosydd Ffrengig yn wahanol i ddraeniau arwyneb cyffredinol gan eu bod yn casglu dŵr trwy gydol hyd y ffos yn hytrach nag un man unigol. O'r herwydd, maent yn gweithio'n dda i atal dŵr rhag cronni mewn manau penodol yn ogystal â delio'n well â glaw trwm a allai orlwytho un draen sefydlog. Mewn amgylchiadau priodol, gellir gosod ffosydd Ffrengig hefyd ar y cyd â waliau i helpu i leihau pwysau llwytho ac i atal dŵr rhag cronni yn erbyn yr adeileddau hyn.

Gellir cyfuno ffosydd hidlo/Ffrengig hefyd â ffosydd cerrig i ddarparu ateb SUDs syml ond effeithiol i draenio dŵr i ffrwd o anheddau yn ogystal ag adeileddau ac ardaloedd eraill.



Gall adeiladu Ffos Ffrengig/Hidlo (ar y chwith) a chyfuno ffos Ffrengig â storfa ffos gerrig helpu i leihau llifogydd o amgylch eich eiddo ar yr amod bod amodau'r ddaear yn addas (ar y dde)

Triniaeth Oddefol (Llygredd)

Mae systemau trin goddefol yn defnyddio prosesau naturiol i dynnu a chwalu llygryddion o ddŵr ffo arwyneb. Gellir dylunio systemau ar raddfa fach fel sribedi hidlo yn hawdd i'r dirwedd ac fe'u lleolir i fyny'r ffrwd o SUDs eraill. Fel arfer, mae systemau 'diwedd pibell' mwy yn ymwneud â storio dŵr mewn

pyllau adeiledig.

Yn gyffredinol, mae angen ardal fwy na mathau eraill o nodweddion ar systemau triniaeth oddefol ac felly nid ydynt fel arfer yn addas ar gyfer ceisiadau lleiniau unigol oni bai bod gennych safle datblygu mawr iawn. Fodd bynnag, gall eich safle ddarparu cyfleoedd i gysylltu â nodweddion o'r fath a'u gwella, sy'n cynnwys:

- Basnau crynhoi
- Pyllau dargadw
- Gwlyptiroedd

Basnau Crynhoi

Defnyddir basnau crynhoi i storio dŵr ffo o ardaloedd mawr. Mae dŵr fel arfer yn rhedeg i mewn i'r rhain o systemau draenio confensiynol neu o SUDs i fyny'r llif megis pantiau.

Mae basnau crynhoi'n gadael i ddŵr ffo ymledu ar draws arwynebedd llydan ac yn llenwi dim ond ar ôl glaw trwm pan fyddant yn dal cyfeintiau mawr o ddŵr. Mae hyn yn gadael i lygryddion setlo allan cyn i'r dŵr socian i ffrwd neu arllwys yn araf i lawr y ffrwd.



Basnau crynhoi ynddi' lleoli o bart a phibell arllwys danddaearol SUDs ar wahân (ar y chwith) a basn crynhoi sych gyda phlannu (ar y dde) yn ychwanegu at gymeriad lleol, bioamrywiaeth ac yn darparu gofod amwynder

Mae pyllau dargadw yn debyg i fasau crynhoi ond maent yn storio dŵr am fwy o amser ac yn gyffredinol yn wlyb trwy'r amser. Mae hyn yn caniatáu i brosesau naturiol, gan ddefnyddio bacteria a golau'r haul, chwalu llygryddion cyn i'r dŵr lifo i gyrsiau dŵr i lawr yr ffrwd yn y pen draw. Gall pyllau hefyd fod yn ychwanegiad i'w groesawu i ardaloedd trefol, gan annog planhigion a bywyd gwyllt.

Mae gwlyptiroedd yn cynnwys cyrff dŵr sydd â llystyfiant dwys ar ffurf pyllau bas ac ardaloedd corsiog sy'n defnyddio gwaddodiad a hidlo i drin dŵr ffo halogedig. Fodd bynnag, o ganlyniad i'r broses hon, dylai'r rhain fod yn gam olaf y broses SUDs oherwydd y risg o siltio.

Mae pyllau a gwlyptiroedd newydd eu creu yn ddelfrydol ar gyfer trin dŵr wedi'i halogi'n ysgafn o fuarthau fferm a heolydd fferm. Ni ddylid byth ddefnyddio pyllau naturiol neu wlyptiroedd presennol i drin dŵr ffo gan y gall hyn niweidio neu darfu ar y bywyd gwyllt sydd eisoes yn yr ardal.

Gellir cysylltu nifer o byllau, neu eu cynnwys gyda gwlyptiroedd i fynd i'r afael â dŵr ffo o ardaloedd mwy ar raddfa'r gymdogaeth a'r dirwedd. Mae mwy o wybodaeth ar gael yn: <https://www.susdrain.org/> and <https://www.sudswales.com/>